



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Glastir

Y Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru

Llyfryn 1 Glastir Sylfaenol:
Canllaw Cyffredinol 2015



Glastir – Cyflwyniad

Cynllun 5 mlynedd ar gyfer rheoli tir y fferm gyfan yn gynaliadwy yw Glastir, i ffermwyr a rheolwyr tir ym mhob rhan o Gymru. Amcanion Glastir yw:

- Rheoli priddoedd er mwyn helpu i ddiogelu ein stoc garbon a lleihau erydiad pridd.
- Gwella ansawdd dŵr a lleihau dŵr ffo.
- Rheoli dŵr i helpu i leihau llifogydd.
- Diogelu a gwella bioamrywiaeth.
- Rheoli a diogelu tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol.
- Creu cyfleoedd newydd i wella mynediad ac i ddeall cefn gwlad.

Mae Glastir wedi'i rannu'n bum elfen:

1. **Glastir Sylfaenol** – cynllun ar gyfer rheoli tir y fferm gyfan, yn agored i ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru. Bydd yn eu talu am ddarparu buddiannau amgylcheddol sy'n mynd i'r afael â phroblemau a blaenoriaethau heddiw. Mae disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i ddarparu nwyddau amgylcheddol am bum mlynedd o dan gontract fydd yn eu rhwymo mewn cyfraith.

2. **Glastir Uwch** – cynllun ar gyfer rhan o fferm yw'r elfen hon i wella'n sylweddol statws amgylcheddol amrywiaeth o gynefinoedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr. Gallai ofyn am newid arferion ffermio. Er mwyn sicrhau'r gwelliannau a'r canlyniadau penodol hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n targedu'i harian mewn ardaloedd fydd yn rhoi'r canlyniadau y mae'n chwilio amdanynt nhw.

3. **Glastir - Tir Comin** – i dalu am ddarparu manteision amgylcheddol ar dir comin.

4. **Glastir - Coetiroedd** – i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir sydd am greu coetir newydd a/neu reoli coetir sy'n bod eisoes. Amcan yr elfen hon yw cynnig buddiannau i amrywiaeth o wahanol fathau o goetir, rhywogaethau, priddoedd a dŵr.

5. **Glastir – Grantiau Effeithiolrwydd** – cynllun grantiau cyfalaf yw hwn. Ei nod yw helpu ffermwyr i wneud eu busnesau a'u hadnoddau'n fwy effeithiol, ac i leihau'r allyriadau carbon sy'n cael eu rhyddhau gan ddaliadau amaethyddol a garddwrol. Mae'r grantiau ar gael i helpu ffermwyr i fuddsoddi mewn technoleg ac offer newydd fydd yn eu helpu i ddefnyddio ynni, dŵr a thail a slyri'n fwy effeithiol.

Bydd Cynllun Glastir yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013.

Rheolir y cynllun gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig 2006 ((Offeryn Statudol) (Cymru) 2006 rhif 3343 (Cy.304)). Rheoliad rhif 1698/2005 y Cyngor a Rheoliadau (EC) rhif 1974/2006 ac (EC) rhif 65/2011 y Comisiwn (fel y'u diwygiwyd i gyd yn eu tro). Mae copïau o'r Rheoliadau i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk neu holwch Swyddfa Ranbarthol leol Llywodraeth Cymru am gopi.

Bydd yn rhaid i Gontractau Glastir a arwyddir yn 2015 gadw at y rheoliadau newydd a ddaw yn sgil y Diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ni all Llywodraeth Cymru warantu na chaiff rheolau Glastir, sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth yr UE ac a ddisgrifir yn y llyfryn hwn, eu newid yn sgil y Diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r newidiadau hynny yn Gwlad (www.gwladarlein.org) ac yn cysylltu, os gwêl fod angen, â ffermwyr i roi gwybod iddynt amdanynt.

Cynnwys

PRIF BWYNTIAU.....	1
RHAN 1: Glastir Sylfaenol	2
Adran A – Cyflwyniad.....	2
Y Trothwy Pwyntiau a Sgorio.....	3
Hawlio Taliad a Maint y Taliad	4
Adran B – Pwy sy’n Gymwys am Glastir Sylfaenol.....	5
Adran C – Pa Dir sy’n Gymwys.....	6
Tir Cymwys.....	6
Cyd-bori.....	6
Coetir a Chytundebau Rheoli CNC	6
Tir Anghymwys.....	7
Mwy nag un yn Hawlio ar yr un Tir.....	7
Tir mewn Cynlluniau Eraill.....	8
Tir Dynodedig.....	10
Tir ar gyfer Chwaraeon.....	11
Adran D – Rheolaeth Lwyr.....	12
Perchen-ddeiliad.....	12
Tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.....	12
Tenantiaethau â llai na 5 mlynedd ar ôl neu sydd â Chymal Terfynu	13
Ystyriaethau i’r Landlord a’r Tenant.....	13
‘Hawliau’ Eraill ar Dir.....	14
Trwyddedau Pori	14
Mwy o Wybodaeth	14
Adran E – Gwneud Cais	15
Dewis eich Opsiynau.....	15
Map y Cais.....	15
Ffurflen Gais.....	16
Sut i Wneud Cais.....	16
Adran F – Newid eich Contract.....	19
Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract Glastir.....	19
Cael Rhagor o Dir yn ystod Cyfnod y Contract	20
Y Gofyn i’n Hysbysu am Newidiadau i’r Tir.....	20
Newid i’r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd).....	20
Newid Rheolau’r Cynllun.....	20
Newid Amodau Rheoli.....	20

RHAN 2: Torri Rheolau'r Cynllun, Cosbau ac Archwiliadau.....	21
Adran A – Cosbau.....	21
Tanddatgan.....	21
Gorddatgan.....	21
Gorddatgan yn fwiadol.....	22
Torri'r Contract.....	22
Trawsgydymffurfio.....	23
Archwiliadau.....	24
Archwiliadau Fferm	24
Cadw Cofnodion	24
Force Majeure ac Amgylchiadau Eithriadol.....	24
RHAN 3: Glastir - Tir Comin	26
Cyflwyniad.....	26
Cofrestru a Mynegi Diddordeb	26
Dyddiadau Pwysig.....	27
Maint y Taliad	27
Swyddogion Datblygu Tir Comin.....	27
RHAN 4: Glastir – Grantiau Effeithiolrwydd	28
Cyflwyniad.....	28
Maint y Grant	28
Mynegi Diddordeb	28
RHAN 5: Glastir Uwch	30
Mynegi Diddordeb.....	30
Y Broses Ddewis	30
Glastir Uwch ar Dir Comin	30
RHAN 6: Glastir – Coetiroedd	31
Cyflwyniad.....	31
Glastir - Rheoli Coetir (GWS).....	31
Glastir - Creu Coetir (GWCS).....	31
Glastir - Premiwm Creu Coetir (GWCP).....	32
RHAN 7: Cyffredinol.....	33
Y Drefn Apelio.....	33
Y Drefn Gwyno.....	33
Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd.....	33
Rhesymau dros Rannu Data Personol.....	34
Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth.....	35
Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.....	36
Gofyn am fwy o Wybodaeth	36
Atodiad 1: Enghraifft o Indemniad.....	37
Atodiad 2: Tabl Nodweddion Anghymwys.....	40
Atodiad 3: Sut i Lenwi Ffurflen Gais Glastir Sylfaenol a Mynegi Diddordeb yn y Grantiau Effeithiolrwydd.....	41
Atodiad 4: Cerdyn Sgorio â llaw Glastir Sylfaenol a Chyfarwyddiadau.....	52
Atodiad 5: Manylion Cysylltu.....	56

Y PRIF BWYNTIAU

- Mae help a chyngor ar gael i'ch helpu i wneud cais am Glastir Sylfaenol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.
- Cofiwch ateb pob cwestiwn cyn cyflwyno'ch cais.
- Cofiwch nodi'r holl opsiynau rheoli rydych wedi'u dewis yn y man priodol yn y ffurflen gais a marcio'r map yn unol â hynny.
- Dylech feddwl am gasglu 10% yn fwy o bwyntiau nag sydd eu hangen arnoch rhag ofn eich bod wedi dewis opsiynau rheoli anghymwys.
- Gofalwch eich bod yn gallu bodloni amodau'r opsiynau rheoli rydych wedi'u dewis a'ch bod yn cadw at y gofynion rheoli am oes y contract.
- Rhaid cyflwyno Ffurflen Cais Sengl bob blwyddyn am oes y contract.
- Rhaid cwblhau'r opsiynau rheoli sydd â Gwaith Cyfalaf yn gysylltiedig â nhw o fewn 2 flynedd gyntaf y contract.
- Cofiwch gyflwyno unrhyw ddogfennau ategol gyda'ch cais.

Ateb cwestiynau

Cofiwch ateb unrhyw gwestiynau gan Lywodraeth Cymru am eich cais Glastir cyn gynted ag y medrdech. O beidio â gwneud, gallem wrthod rhoi Contract Glastir i chi.

RHAN 1: GLASTIR SYLFAENOL

Hwn yw'r cyntaf o ddau Lyfryn Esboniadol sy'n egluro Glastir Sylfaenol. Mae'r llyfryn hwn yn ganllaw cyffredinol i'r cynllun ac yn esbonio'r broses ymgeisio.

Teitl yr ail lyfryn yw *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* ac mae'n rhoi gwybodaeth dechnegol ac yn esbonio gofynion manwl Cod y Fferm Gyfan a phob un o'r Opsiynau Rheoli.

Cofiwch fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi'u huno i greu corff unedig o'r enw 'Cyfoeth Naturiol Cymru'.

ADRAN A: CYFLWYNIAD

Mae Glastir Sylfaenol wedi'i rhannu'n dair rhan:

Trawsgydymffurfio	<p>Set o ofynion y mae'n rhaid i chi eu cadw ar eich holl dir amaethyddol:</p> <ul style="list-style-type: none">• cadw tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) trwy fodloni nifer o safonau sy'n ymwneud â diogelu'r pridd, cynefinoedd a thirweddau; a• bodloni nifer o Ofynion Rheoli Statudol (SMR) sy'n ymdrin â'r amgylchedd, iechyd pobl a phlanhigion, iechyd a lles anifeiliaid, a thagio ac olrhain da byw. <p>Cewch ragor o wybodaeth yn Rhan 1 <i>Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol</i> neu gan eich Swyddfa Ranbarthol.</p>
Cod y Fferm Gyfan (WFC)	<p>Set o ofynion gorfodol ar gyfer yr holl dir sydd o dan y contract.</p> <p>Ewch i Ran 2 <i>Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol</i> am fwy o fanylion.</p>
Opsiynau Rheoli	<p>Set o ofynion rheoli tir sydd wedi'u dewis i gwrdd ag amcanion y cynllun. Caiff ffermwyr naill ai ddewis Opsiynau Rheoli unigol o'r rhestr lawn neu ddewis pecyn o Opsiynau Rheoli fydd yn dod â'r manteision amgylcheddol gorau i'w rhanbarth – y <i>Pecyn Rhanbarthol</i> fel y'i gelwir.</p> <p>Ni fydd ffermwyr yn cael cynnal rhai Opsiynau Rheoli ar dir mewn <i>ardaloedd gwarchod penodol</i> yng Nghymru.</p> <p>Am fanylion llawn yr Opsiynau Rheoli, y Pecynnau Rhanbarthol a'r <i>Ardaloedd Gwarchod</i>, ewch i Ran 3 <i>Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol</i> am fwy o fanylion.</p>

Bydd disgwyl i chi gadw at amodau'r contract am y cyfnod llawn o 5 mlynedd. Bydd yr amodau hyn yn cael eu rhestru yn eich contract.

Y trothwy pwyntiau a sgorio

I gael ymuno â Glastir Sylfaenol, rhaid i chi gyrraedd neu groesi trothwy pwyntiau sy'n seiliedig ar arwynebedd y tir cymwys ar y fferm sy'n dod yn rhan o'r cynllun. Gallwch ddewis rhwng Trothwy Lefel Mynediad Safonol neu'r Trothwy Lefel Mynediad Is. Bydd ffermwr yn cael hyn a hyn o bwyntiau am bob Opsiwn Rheoli y bydd yn ei gynnal, gan gyfrannu at y trothwy y mae wedi'i ddewis.

Trothwy Lefel Mynediad Safonol

Bydd hwn yn cael ei gyfrif trwy luosi nifer yr hectarau cymwys â 34. Er enghraifft, bydd fferm 35 hectar o faint yn gorfod casglu trothwy o 1190 o bwyntiau (35ha x 34 = 1190).

Trothwy Lefel Mynediad Is

Bydd hwn yn cael ei gyfrif trwy luosi nifer yr hectarau cymwys ag 17. Er enghraifft, bydd fferm 40 hectar o faint yn gorfod casglu trothwy o 680 o bwyntiau (40ha x 17 = 680).

Os ydych am wneud cais am y Trothwy Lefel Mynediad Is, ni chewch eich ystyried ar gyfer Glastir Uwch.

Mae cerdyn sgorio electronig ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk i'ch helpu i gyfrif eich pwyntiau. Mae fersiwn bapur yn Atodiad 4 y llyfryn hwn. Rhestrir nifer y pwyntiau a roddir ar gyfer pob opsiwn yn y Tabl Crynhoi'r Opsiynau Rheoli yn *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Canllaw Technegol*.

Ffermwyr godro

Os ydych yn ffermwr godro a bod gennych gontract llaeth gyda phrynwr llaeth neu gwmni llaeth fydd yn para am oes eich contract Glastir, cewch 10% yn fwy o bwyntiau am gynnal rhai Opsiynau Rheoli. Y bonws godro 10% yw'r enw ar hwn. Mae croeso i chi newid eich contract llaeth i gwmni gwahanol yn ystod oes y contract cyn belled nad oes bwlch rhwng contractau.

Ni chewch y Pecyn Rhanbarthol gyda'r bonws godro.

Y Pecyn Rhanbarthol

Os byddwch yn dewis y Pecyn Rhanbarthol, byddwn yn ychwanegu 10% at bwyntiau'r Opsiynau Rheoli y byddwch yn eu dewis.

Fe welwch fwy o fanylion yn Rhan 3, Adran 4 Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol.

Hawlio taliad a maint y taliad

Y taliad ar gyfer Glastir Sylfaenol yw £34 yr hectar os ydych wedi dewis y Lefel Mynediad Safonol ac £17 yr hectar os ydych wedi dewis y Lefel Mynediad Is. Byddwch yn cael eich talu am y tir cymwys sydd gennych o dan y contract, nid dim ond y tir y byddwch yn cynnal Opsiynau Rheoli arno.

Mae taliad fesul hectar hefyd am gadw at God y Fferm Gyfan:

Taliad Cod y Fferm Gyfan	
Arwynebedd cymwys	£ yr hectar
Hyd at 20 ha	£15.00
20.01 i 50.00 ha	£8.00
50.01 i 100 ha	£2.75
Dros 100 ha	Dim taliad ychwanegol

Er mwyn cael taliad, rhaid cyflwyno Ffurflen Cais Sengl (SAF) bob blwyddyn. Gofalwch eich bod yn cael pecyn ymgeisio SAF mewn pryd i chi allu cyflwyno'ch SAF erbyn 15 Mai bob blwyddyn. Bydd gofyn i chi ddatgan yr holl dir yn eich daliad ar y SAF, nid dim ond y tir sydd yn eich Contract Glastir. Bydd taliadau Glastir Sylfaenol yn cael eu cyfrif ar sail yr arwynebedd cymwys sy'n rhan o'r contract, ar ôl dilysu cywirdeb y SAF a Chontract Sylfaenol bob blwyddyn.

ADRAN B: PWY SY’N GYMWYS AM GLASTIR SYLFAENOL

Er mwyn cael gwneud cais am Glastir Sylfaenol, rhaid i chi fodloni’r holl amodau canlynol:

- byddwch wedi’ch cofrestru fel cwsmer gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- byddwch wedi cofrestru’ch holl dir ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru.
- bydd gennych o leiaf 3 hectar o dir cymwys.
- bydd gennych reolaeth lwyr ar eich holl dir cymwys o 1 Ionawr 2015 am gyfnod llawn y contract (5 mlynedd). Os ydych yn denant fydd yn annhebygol o fod â rheolaeth ar y tir am y 5 mlynedd llawn, bydd yn dal cyfle i chi ymuno â’r cynllun os bydd y landlord yn fodlon rhoi gwarant (indemniad) i chi. Ewch i Ran 1, Adran D y llyfryn hwn am fwy o fanylion ynghylch ystyr rheolaeth lwyr a gwarant gan landlord.
- byddwch wedi cyrraedd y trothwy pwyntiau rydych wedi’i ddewis.
- peidio ag achosi cyn dyddiad cychwyn eich contract unrhyw ddifrod amgylcheddol o fath a fyddai’n mynd yn groes i amcanion y cynllun.
- byddwch wedi llenwi, arwyddo a dychwelyd y ffurflen gais a map wedi’i farcio sy’n dangos ble byddwch yn cynnal pob opsiwn rheoli a’r holl ddogfennau cefnogol.

ADRAN C: PA DIR SY’N GYMWYS

Tir Cymwys

Gan fod Glastir Sylfaenol yn gynllun “fferm gyfan”, rhaid i’r holl dir cymwys fydd o dan eich rheolaeth lwyr am gyfnod y contract ddod o dan y cynllun. Ewch i Ran 1, Adran D y llyfryn hwn am fwy o fanylion.

Ystyr tir cymwys yw:

- Tir amaethyddol yng Nghymru.
- Tir comin os mai chi yw’r unig un sydd â hawliau pori cofrestredig arno neu os mai chi yw’r unig borwr actif a hawliwr arno. Bydd wedi’i gofrestru’n barsel ar LPIS Llywodraeth Cymru.
- Gellir cynnwys hefyd beth tir nad yw’n dir amaethyddol, er enghraifft coetir (darllenwch y blwch isod am ddiffiniad o goetir).

DIFFINIADAU	
Tir amaethyddol	Unrhyw dir sy’n dir âr, yn borfa barhaol neu o dan gnwd parhaol
Coetir	Darnau unigol o goetir sydd fwy na 0.5 hectar ac sydd ar Restr Goedwigaeth Genedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth a’u dangos ar fap eich cais am Glastir Sylfaenol
Coetir Rhagdybiedig	Darnau unigol o goetir newydd y talwyd am eu plannu trwy gynlluniau grantiau coetir, nad ydynt eto i’w gweld ar luniau o’r awyr. Maent yn fwy na 0.5 hectar o faint ac maent wedi’u mapio o dan Restr Goedwigaeth Genedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth a’u dangos ar fap eich cais am Glastir Sylfaenol.

Cyd-bori

Os ydy’r tir yn cael ei bori gan fwy nag un ffermwr ond nad yw’n dir comin cofrestredig ac nad oes iddo nodweddion tir comin (e.e. yn dir wedi’i wella), gallwch lunio Contract Glastir ar wahân ar ei gyfer os daw’r holl borwyr sydd â hawliau i bori’r tir hwnnw ynghyd i ffurfio cymdeithas bori. Bydd y tir eisoes wedi’i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi’i gofnodi yn yr LPIS. Bydd yn rhaid i’r gymdeithas bori gofrestru hefyd fel cwsmer gyda Llywodraeth Cymru a chyflwyno cais Glastir Sylfaenol ar wahân ar gyfer y tir hwn. Er mwyn cael ffurflen gais, dylai’r Gymdeithas Bori gysylltu â’i Swyddfa Ranbarthol.

Yn achos tir sy’n cael ei bori gan fwy nag un ffermwr ac sydd â nodweddion tir comin (e.e. tir heb ei amgáu, porfa arw), rhaid cynnwys hwnnw yn Glastir - Tir Comin. Ewch i Ran 3 y llyfryn hwn am fwy o fanylion.

Coetir a Chytundebau Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru

Gellwch gynnwys yn eich Contract Glastir unrhyw goetir sydd wedi’i fapio o dan y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI) a thir sydd o dan Gytundeb Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (gan gynnwys cytundebau Adran 15 ac Adran 16) fel sydd wedi’i ddangos ar fap eich cais am Glastir Sylfaenol ac y gellir ei gynnwys yn eich Contract Glastir. Serch hynny, cewch ddewis peidio â chynnwys y tir hwnnw yn eich contract.

Os byddwch yn dewis cynnwys coetir yn eich contract, cewch daliad arno ond ni chewch gynnal unrhyw Opsiynau Rheoli yn y coetir heblaw am Opsiwn Rheoli 40, *cynnal y ffens bresennol o gwmpas coetir di-stoc ac Opsiwn 8, parhau i reoli coridor ar lan nant lle bo'r coetir hyd at 10 metr o led bob ochr i'r cwrs dŵr.*

Os byddwch yn dewis rhoi tir sy'n dod o dan Gytundeb Rheoli CNC yn eich Contract Glastir, cewch daliad arno ond ni chewch gynnal unrhyw Opsiynau Rheoli arno. (Ewch i'r paragraff *Tir sydd wedi'i gynnwys mewn Cytundeb Rheoli CNC* am fwy o fanylion).

Os byddwch yn dewis peidio â chynnwys coetir yr NFI na thir o dan Gytundeb Rheoli CNC yn eich contract, byddwch yn gostwng eich trothwy pwyntiau a'ch taliad. Os byddwch yn dewis peidio â chynnwys coetir yn eich Contract Glastir, rhaid i chi beidio â chynnwys unrhyw goetir sydd wedi'i fapio o dan yr NFI ac sydd wedi'i ddangos ar fap eich cais am Glastir Sylfaenol.

Os ydych yn anghytuno â dynodiadau coetir yr NFI sy'n effeithio ar eich tir, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Tir Anghymwys

Ni fydd y mathau canlynol o dir yn gymwys ar gyfer Glastir Sylfaenol:

- Tir a fydd o dan eich rheolaeth lwyr am lai na phum mlynedd; oni bai'ch bod yn denant a bod eich landlord yn rhoi gwarant (indemniad). Ewch i Ran 1, Adran D y llyfryn hwn am fwy o fanylion.
- Tir wedi'i ddatblygu, buarthau, arwynebau caled, meysydd carafannau parhaol, cyrsiau golff, mannau storio parhaol ac ati.
- Tir comin cofrestredig â mwy nag un porwr yn ei bori. Ewch i Ran 3 y llyfryn hwn am fanylion Glastir – Tir Comin.
- Tir sydd heb ei gofrestru fel tir comin ac sydd â mwy nag un yn ei bori, oni bai bod i'r tir nodweddion gwahanol i dir comin a bod yr holl borwyr yn ffurfio cymdeithas bori gyfreithlon. (Darllenwch y paragraff 'Cyd-bori' uchod).
- Tir sy'n cael ei ddefnyddio gan ffermwr arall i hawlio cymhorthdal Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) (Dau'n hawlio ar yr un tir).
- Caeau y tu allan i Gymru.

Ewch i Atodiad 2 am restr o nodweddion anghymwys parhaol (e.e. buarthau ac arwynebau caled).

Mwy nag un yn Hawlio ar yr un Tir

Nid oes hawl gan fwy nag un hawlio ar yr un tir (h.y. ni chaiff dau ddefnyddio'r un parcel o dir i hawlio o dan gynlluniau gwahanol PAC yr Undeb Ewropeaidd e.e. y Cynllun Taliad Sengl a Glastir Sylfaenol). Y rheswm yw na all tir fod o dan reolaeth lwyr mwy nag un ffermwr/rheolwr tir yr un pryd. Os ydych yn landlord neu'n denant sydd am ymuno â Glastir Sylfaenol, rydym yn eich cynghori i edrych yn fanwl ar eich tenantiaeth a'ch trefniadau busnes i weld a ydych yn gallu bodloni'r meini prawf ar gyfer ymuno â'r cynllun.

Am fwy o wybodaeth am hawlio ddwywaith ar yr un tir, ewch i wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/dualuseoflandqa/?skip=1&lang=cy>

Cewch wybodaeth am reolaeth lwyr yn Adran D: Rheolaeth Lwyr yn y llyfryn hwn.

Nodyn Pwysig

Gofalwch nad oes neb arall yn hawlio ar yr un tir os ydych am ymuno â Glastir Sylfaenol.

Hynny yw, gofalwch nad yw'r tir rydych yn ei roi yn eich cais am Glastir Sylfaenol yn cael ei ddefnyddio gan ffermwr neu reolwr tir arall i hawlio cymorth o dan gynllun PAC yr Undeb Ewropeaidd (er enghraifft Cynllun y Taliad Sengl a Glastir Sylfaenol).

Tir mewn Cynlluniau Eraill

Gan fod Glastir Sylfaenol yn gynllun fferm gyfan, **rhaid** i chi gynnwys bob tir cymwys sydd ar hyn o bryd mewn cynlluniau eraill. Isod, rydym yn disgrifio'r berthynas rhwng Glastir Sylfaenol a thir mewn cynlluniau eraill, a'r eithriadau i'r rheol hon:

Cynllun Taliad Sengl (SPS)

Bydd tir yr ydych yn hawlio'r SPS arno yn 2015 yn gymwys i chi ei roi yn eich Contract Glastir. Mae'n bosibl y bydd tir sydd o dan Opsiwn Rheoli Glastir Sylfaenol nad yw'n bodloni amodau SPS (e.e. coridor ar lan nant), yn dal i fod yn gymwys am daliad SPS os gwnaethoch chi ddefnyddio'r tir i gael taliad SPS yn 2008. Nid yw pyllau dŵr na phyllau dŵr sydd wedi'u creu o dan Glastir sy'n fwy na 50 metr sgwâr o faint yn gymwys am y Cynllun Taliad Sengl (SPS). Darllenwch Lyfryn Rheolau'r Cais Sengl diweddaraf am fwy o fanylion.

Tir Cynnal

Mae tir a oedd yn rhan o gytundeb Tir Cynnal yn gymwys i fod yn rhan o'ch Contract Glastir.

Tir Gofal – gan gynnwys y Trefniadau Pontio

Mae tir a oedd yn rhan o gytundeb Tir Cynnal yn gymwys i fod yn rhan o'ch Contract Glastir.

Os oes gwaith cyfalaf wedi'i gynnal o dan gontract Tir Gofal ac i'r contract ddod i ben cyn dechrau'ch Contract Glastir, rhaid dewis Opsiwn Rheoli 'parhau' ac nid Opsiwn Rheoli sy'n 'creu' o dan Glastir Sylfaenol. Er enghraifft, os oes coridor glan nant wedi'i greu o dan Tir Gofal, cewch ddewis Opsiwn Rheoli 8 Glastir Sylfaenol *Parhau i reoli coridor ar lan nant*, ond ni chewch ddewis yr Opsiwn Rheoli i greu coridor ar lan nant yn yr un lle (h.y Opsiynau Rheoli 7A, 7B, 9A a 9B).

Ffermio Organig

Caiff gwybodaeth am y cymorth newydd ar gyfer cynhyrchwyr organig ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a hefyd yn Gwlad.

Ni chewch ddewis Opsiynau Rheoli 30 a 31 (darllenwch lyfryn 2) os ydych am ymuno â chynllun organig newydd Llywodraeth Cymru. Caiff yr holl ddyddiadau eu cyhoeddi yn Gwlad ac ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cym.gov.uk).

Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (ESA)

Mae tir a oedd gynt o dan gontract ESA yn awr yn gymwys i chi ei roi yn eich Contract Glastir.

Os oes gwaith cyfalaf wedi'i gynnal o dan gontract ESA ac i'r contract ddod i ben cyn dechrau'r Contract Glastir, rhaid dewis Opsiwn Rheoli 'parhau' ac nid Opsiwn Rheoli sy'n 'creu' o dan Glastir Sylfaenol. Er enghraifft, os oes coridor glan nant wedi'i greu o dan gytundeb ESA, gallech ddewis Opsiwn Rheoli 8 Glastir Sylfaenol *Parhau i reoli coridor ar lan nant*, ond ni chewch ddewis yr Opsiwn Rheoli i greu coridor ar lan nant yn yr un lle (h.y Opsiynau 7A, 7B, 9A a 9B).

Cynlluniau Coetir

Mae coetir sydd o dan Gynllun Premiwm Coetir Fferm, Cynllun Coetir Ffermydd, Cynllun Grantiau Coetir, Premiwm Tir wedi'i Wella, Coetiroedd Gwell i Gymru, Glastir – Rheoli Coetir, Glastir – Creu Coetir a Phremiwm Creu Coetir Glastir yn gallu cyfrif at eich tir cymwys. Fodd bynnag, ni chewch gynnal opsiynau Glastir Sylfaenol yn y coetir hwnnw. Rydych yn rhydd fodd bynnag i ddewis peidio â chynnwys coetir yr NFI (fel y'i diffinnir uchod).

Elfennau Eraill Glastir

Cewch ddarllen mwy o wybodaeth am elfennau eraill Glastir yn:

Rhan 3: Glastir – Tir Comin

Rhan 4: Glastir - Grant Effeithiolrwydd

Rhan 5: Glastir Uwch

Rhan 6: Glastir – Coetiroedd

Tir sydd wedi'i gynnwys mewn Cytundeb Rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru

Os oes gennych dir o dan Gytundeb Rheoli Adran 15 (A.15) neu Adran 16 (A.16) gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), cewch ddewis un ai i'w gynnwys neu i beidio â'i gynnwys yn eich Contract Glastir.

Os dewiswch gynnwys y tir hwn, bydd yn cyfrannu at arwynebedd cyfan eich fferm ac yn cael ei ddefnyddio i gyfri'ch trothwy pwyntiau. Ond ni chewch gynnal Opsiynau Rheoli ar dir sydd o dan gytundeb rheoli A.15 nac A.16.

Os ydych yn dewis peidio â chynnwys tir sydd o dan Gytundeb Rheoli CNC yn eich Contract Glastir, gofawch bod Cytundeb Rheoli CNC yn ei le ar 1 Ionawr 2015. Os daw Cytundeb Rheoli CNC i ben cyn 1 Ionawr 2015 a'ch bod am adnewyddu'r cytundeb gyda CNC, rhaid i'r cytundeb hwnnw fod yn ei le erbyn 1 Ionawr 2015.

Os byddwch yn dewis peidio â chynnwys eich tir sydd o dan Gytundeb Rheoli CNC yn eich Contract Glastir, fe allai fod yn gymwys ar gyfer Glastir Uwch.

Cytundebau Rheoli Henebion Rhestredig

Byddwch yn cael cyfrif Henebion Rhestredig a thir sydd o dan gytundeb rheoli CADW fel

rhan o'r arwynebedd sy'n cael ei ddefnyddio i gyfri'ch trothwy pwyntiau Glastir Sylfaenol a'r taliad cysylltiedig. Ni chewch gynnal Opsiynau Rheoli ar dir sydd o dan gytundeb rheoli Henebion Rhestredig.

Os ydy'r Heneb Restredig ar dir nad yw'n rhan o gytundeb rheoli gyda CADW, cewch gynnwys y tir hwnnw yn eich contract Glastir oni bai bod y tir hwnnw'n cael ei ystyried yn anghymwys am y rhesymau a ddisgrifir yn Atodiad 2 y llyfryn hwn.

Arian o Ffynonellau Eraill

Os byddwch yn cael taliad o ffynhonnell arall ar gyfer rheoli gwaith sydd ei angen o dan Opsiwn Rheoli Glastir Sylfaenol, bydd hynny'n cael ei ystyried yn enghraifft ohonoch yn cael eich talu ddwywaith. Rhaid peidio felly â dewis Opsiynau Rheoli sydd eisoes yn cael eu hariannu o dan gytundeb arall neu o ffynhonnell arall. Cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw peidio â dewis Opsiwn Rheoli sy'n gorgyffwrdd â chytundeb arall a sicrhau nad yw gofynion rheoli'r cynlluniau yn gwrthdaro.

Os gwelir wedyn eich bod yn cael arian o ffynhonnell arall i gynnal Opsiwn Rheoli Glastir Sylfaenol, bydd hyn yn debygol o arwain at eich cosbi'n ariannol a dod â'ch contract i ben.

Tir Dynodedig

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA, Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)

Mae tir sydd wedi'i ddynodi'n SoDdGA (gan gynnwys ACA ac AGA) yn gymwys ar gyfer Glastir Sylfaenol. Rhaid gofalu serch hynny nad yw gofynion eich Contract Glastir yn gwrthdaro â gofynion rheoli'r ardaloedd hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am reoli SoDdGAoedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Mae gofyn cyfreithiol i ofyn i CNC am ei **ganiatâd ysgrifenedig** cyn cynnal Opsiynau Rheoli ar y tir hwnnw.

Ewch i Ran 3, Adran 6 ac Atodiad 1 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* am fwy o fanylion.

Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Rhestredig a Nodweddion eraill yr Amgylchedd Hanesyddol

Rhaid i chi ofalu nad yw gofynion eich Contract Glastir yn gwrthdaro â'r gofynion ar gyfer rheoli tir sydd wedi'i ddynodi'n Heneb Restredig nac yn difrodi Parciau a Gerddi Cofrestredig, Heneb sydd wedi'i Rhestru a Nodwedd arall yn yr Amgylchedd Hanesyddol.

CADW yw'r corff sy'n gyfrifol am reoli Henebion Rhestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. Os ydych am gynnal Opsiwn Rheoli ar y tir hwnnw, efallai y bydd angen ei ganiatâd ysgrifenedig arnoch i gynnal yr Opsiwn Rheoli hwnnw. Ewch i Ran 3, Adran 6 ac Atodiad 1 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol*.

Os ydych yn bwriadu cynnal Opsiynau Rheoli sy'n golygu aflonyddu'r tir ar Nodwedd yn yr Amgylchedd Hanesyddol, bydd gofyn i chi gael caniatâd yr Ymddiriedolaeth Archeolegol

leol. Ewch i Ran 3, Adran 6 ac Atodiad 1 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* am fwy o fanylion.

Tir ar gyfer Chwaraeon

Os ydych am ddefnyddio'ch tir i gynnal chwaraeon arno, byddai hynny'n groes i'ch cytundeb (e.e. difrod i dir cynefin) a bydd yn rhaid i chi beidio â'i gynnwys yn eich Contract Glastir. Nid yw tir sy'n cael ei ddefnyddio'n barhaol at bwrpas cynnal chwaraeon arno (e.e. cwrs golff) yn gymwys ar gyfer Glastir Sylfaenol.

ADRAN D: RHEOLAETH LWYR

Un o amodau'r cynllun yw bod gan y ffermwr neu'r rheolwr tir reolaeth lwyr ar y tir am 5 mlynedd llawn y contract er mwyn iddo allu cyflawni'i holl ymrwymadau o dan y cynllun.

Os penderfynir nad oes gennych y rheolaeth lwyr ofynnol, caiff y tir ei dynnu o'r contract a bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i dalu i chi mewn cysylltiad â'r tir hwnnw, ac o bosibl cewch gosb ariannol.

Ystyrir fel arfer bod gan y canlynol 'reolaeth lwyr ar y tir':-

- Perchen-ddeiliad.
- Tenant sydd â thenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (Tenantiaeth Busnes Fferm) neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.
- Trwyddedwr.

O dan rai amgylchiadau, y landlord fydd â rheolaeth lwyr ar y tir os ydy'r cytundeb â'r tenant yn cynnwys amodau addas i sicrhau bod gofynion Contract Glastir yn cael eu cyflawni. Cofiwch nad oes hawl gan fwy nag un hawlio ar yr un tir o dan Glastir Sylfaenol (h.y. ni chaiff dau ddefnyddio'r un parcel o dir i hawlio o dan gynlluniau gwahanol PAC yr Undeb Ewropeaidd).

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu'ch bod yn gallu cyflawni'ch ymrwymadau o dan y contract am y cyfnod 5 mlynedd llawn. Os na allwch wneud, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi ad-dalu pob taliad fydd wedi'i wneud i chi.

Perchen-Ddeiliad

Os mai chi yw perchen-ddeiliad y tir, bydd y tir yn debygol o fod o dan eich rheolaeth lwyr chi.

Os oes rhywun yn pori'ch tir o dan drwydded bori, darllenwch y paragraffau o dan Drwyddedau Pori.

Tenantiaeth o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986

Os ydych yn denant â Thenantiaeth Busnes Fferm (FBT) o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 neu denantiaeth o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol (AHA) 1986, mae'n debygol y bydd gennych y rheolaeth ar y tir sydd ei angen arnoch i allu cyflawni holl ymrwymadau'r contract.

Bydd ambell gytundeb yn gwahardd y tenant rhag ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol neu efallai'n ei gwneud yn anodd neu'n anymarferol iddo ymuno â Glastir Sylfaenol heb ganiatâd landlord. Mae'n bwysig eich bod yn gofalu na fydd ymuno â Glastir Sylfaenol yn torri amodau'ch tenantiaeth.

Tenantiaethau â llai na 5 mlynedd ar ôl neu sydd â Chymal Terfynu

Os ydy'ch tenantiaeth yn cynnwys cymal terfynu neu ei bod i ddod i ben cyn diwedd 5 mlynedd eich Contract Glastir (er bod disgwyl iddi gael ei hestyn neu ei hadnewyddu), ni chaiff y tir hwnnw fod yn rhan o Contract Glastir oni bai bod y landlord yn cytuno i ysgwyddo'r ymrwymiad pan ddaw'r denantiaeth i ben. Indemniad neu Warrant y Landlord yw'r enw ar hyn.

Gwarant/Indemniad Landlord

Cytundeb rhyngoch chi a'ch landlord yw indemniad/gwarant landlord sy'n datgan bod y landlord neu berson sydd wedi'i enwebu ganddo (e.e. tenant newydd) yn cytuno i ysgwyddo Contract Glastir y tir rhent ar ddiwedd eich tenantiaeth.

Bydd gofyn i chi gyflwyno gwarant eich landlord gyda'ch cais am Glastir Sylfaenol.

Mae enghraifft o ffurflen gwarant y landlord wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'ch helpu. Ar ôl ei arwyddo, bydd y gwarant yn rhwymo mewn cyfraith ac rydym yn cynghori'r ddau barti felly i ofyn cyngor proffesiynol cyfreithiol annibynnol cyn arwyddo cytundeb o'r fath.

Os bydd eich landlord yn cytuno i arwyddo gwarant, bydd ymrwymiad eich Glastir Sylfaenol chi ar gyfer y tir rhent hwn yn cael ei drosglwyddo iddo pan ddaw'ch tenantiaeth i ben. Unwaith y caiff ymrwymiad Glastir Sylfaenol ei drosglwyddo, cyfrifoldeb eich landlord fydd sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu cyflawni tan ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich landlord yn llofnodi ac yn ysgwyddo Glastir Sylfaenol pan ddaw'ch tenantiaeth ar gyfer y tir hwnnw i ben. Os na fydd y landlord wedi ysgwyddo'r ymrwymiad ar gyfer y tir rhent, yna byddwn yn gorfod gofyn i chi ad-dalu'r arian rydych wedi'i dderbyn mewn cysylltiad â'r tir hwnnw. Cofiwch, ni dderbyniwn warrant landlord ar gyfer tir nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ymuno â'r cynllun (e.e. o leiaf 3 hectar o dir). Ni chaiff felly fod yn rhan o'r Contract Glastir.

Os oes gennych denantiaeth fydd yn para dros gyfnod 5 mlynedd eich Contract Glastir ond bod eich landlord yn penderfynu cymryd y tir oddi arnoch cyn diwedd eich Contract Glastir, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r arian sydd wedi'i dalu i chi oni bai bod eich landlord neu'r tenant newydd yn cytuno i barhau ag ymrwymiad Glastir Sylfaenol. Mae'n bwysig felly mai dim ond tir y gallwch gadarnhau fydd o dan eich rheolaeth lwyr chi o dan oes Contract Glastir neu dir y mae gennych warrant ar ei gyfer gan eich landlord, ddylai ddod o dan y cynllun.

Ystyriaethau i'r Landlord a'r Tenant

Os bydd tenant am ymuno â contract Glastir Sylfaenol ond bod llai na 5 mlynedd o'r denantiaeth ar ôl, dylai ystyried naill ai:

- Cael gwarant gan y landlord; neu
- Gofyn am estyniad i'r denantiaeth er mwyn iddi gwmpasu cyfnod 5 mlynedd llawn Contract Glastir.

Os na fydd y landlord am roi gwarant na chynnig tenantiaeth hirach i gwmpasu cyfnod 5 mlynedd llawn y Contract Glastir, bydd y tir hwn yn anghymwys a rhaid peidio â'i gynnwys yng nghontract y tenant.

Os bydd y landlord yn cytuno i roi gwarant, mae'n bwysig iddo ddeall unwaith y daw'r tir yn ôl o dan ei reolaeth, mai ef (neu'r person sydd wedi'i enwebu) fydd yn gyfrifol am yr holl ymrwymadau, gan gynnwys y cosbau neu ad-daliadau y bydd yn rhaid eu gwneud yn sgil torri amodau'r cynllun neu am orddatgan. Bydd hyn yn cynnwys tramgwyddau y sylwir arnyn nhw ar ôl cymryd y contract, hyd yn oed os mai'r cyn-deniant oedd yn gyfrifol amdanynt.

Cytundeb yw gwarant y landlord rhwng y tenant a'r landlord. Os bydd landlord sydd wedi arwyddo gwarant yn penderfynu peidio â chymryd y Contract Glastir drosodd, bydd gofyn i'r tenant ad-dalu taliadau.

'Hawliau' Eraill ar Dir

Dylech drafod eich cais arfaethedig gydag unrhyw bartion eraill sydd â hawliau cynnal chwaraeon neu hawliau eraill ar y tir os oes posibilrwydd y gallai'r hawliau hynny effeithio ar ymrwymadau'r contract. Bryd hynny, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych reolaeth lwyr ar y tir a'ch bod yn gallu cyflawni holl ymrwymadau'r contract.

Trwyddedau Pori

Trwyddedwr (y sawl sy'n rhoi'r drwydded bori)

Os mai chi yw'r trwyddedwr, bydd hynny'n golygu bod gennych ddigon o reolaeth ar y tir i chi allu ei gynnwys yn eich Contract Glastir. Pan ddaw'r tir hwnnw o dan eich contract, chi fydd yn gyfrifol am ofalu nad yw'r trwyddedai (y porwr) yn torri'ch ymrwymadau o dan y contract gan mai o dan eich rheolaeth lwyr chi y mae'r tir.

Trwyddedai (y porwr)

Os oes gennych hawl i bori tir trwy drwydded bori, ni chewch roi'r tir hwnnw yn eich Contract Glastir chi gan nad oes gennych y rheolaeth angenrheidiol ar y tir.

Mwy o Wybodaeth

Mae'r esboniadau yn yr adran hon ond yn rhoi darlun cyffredinol o'r pwnc rheolaeth, a hynny dim ond o safbwynt Glastir Sylfaenol. Nid yw'n ystyried agweddau eraill a allai effeithio ar benderfyniadau unigolion. Os oes gennych bryderon neu gwestiynau am eich sefyllfa bersonol chi a'ch rheolaeth chi ar y tir, dylech fynd ar ofyn cyngor proffesiynol. Cewch fwy o wybodaeth am feddiannu tir yn y llyfryn *Meddiannaeth Tir Glastir a Threfniadau Pori* a gynhyrchwyd gan y Grŵp Meddiannaeth Tir o dan nawdd Llywodraeth Cymru. Mae copi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar <http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/100811glastirlandoccupationconsiderationsen.pdf>

HAWLIO DDWYWAITH AR YR UN TIR

Os ydych yn denant neu'n landlord a'ch bod am ymuno â Glastir Sylfaenol, rydym yn eich cynghori i ystyried eich tenantiaeth a threfniadau'ch busnes yn ofalus i sicrhau nad oes mwy nag un yn hawlio ar yr un tir. Ewch i Ran 1, Adran C: Pa Dir sy'n Gymwys.

Cewch fwy o wybodaeth am hawlio ddwywaith ar y tir ar wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/dualuseoflandqa/?skip=1&lang=cy>

ADRAN E: GWNEUD CAIS

Mae'r adran hon yn esbonio'r broses ymgeisio.

Pwysig: Os oes angen mwy nag un pecyn ymgeisio arnoch, byddem yn argymhell eich bod yn rhoi hyd at 28 diwrnod i'r pecyn gyrraedd ar ôl y dyddiad y gofynnoch am y pecyn. Os na fydd y pecyn wedi cyrraedd erbyn hynny, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Wrth baratoi'ch Ffurflen Gais, byddwn yn defnyddio'r manylion diweddaraf sydd gennym ar y System Adnabod Parseli Tir am barseli'ch busnes. Drwy hynny, byddwn yn gallu printio'r manylion cywir ar Fapiau'ch Cais Glastir.

Help i lenwi'ch Ffurflen Gais

Mae cyngor ar gael i'ch helpu gyda'ch cais am Glastir Sylfaenol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Dewis eich Opsiynau

Bydd gofyn i chi ystyried yn ofalus pa Opsiynau Rheoli rydych am eu dewis i'w cynnwys yn eich contract. Ewch i *Lyfryn 2 Glastir Sylfaenol – Y Canllaw Technegol* am restr lawn o Opsiynau Rheoli Glastir Sylfaenol, Cod y Fferm Gyfan a'r Pecynnau Rhanbarthol. Mae'n disgrifio'r gwaith rheoli sydd ynghlwm wrth bob Opsiwn Rheoli a'r safonau y mae'n rhaid eu bodloni. Darllenwch y canllawiau ar gyfer pob Opsiwn Rheoli yn ofalus cyn dewis eich opsiynau. Mae'n bwysig eich bod yn gallu adnabod cynefinoedd er mwyn medru dewis Opsiynau Rheoli addas.

Os ydych chi'n dewis opsiwn ar dir â'r y gallwch ei gylchdroi o gwmpas y fferm, byddwn yn gofyn i chi am fanylion yr holl gaeau y byddwch yn cynnal yr opsiynau hyn arnynt.

Mae'ch ffurflen gais amgaeedig yn dangos beth yw'r trothwy pwyntiau ar gyfer lefel Mynediad Safonol a'r Lefel Mynediad Is ar eich fferm chi, ar sail y tir rydych wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

Rydym yn eich cynghori i gasglu o leiaf 10% yn fwy o bwyntiau na'r trothwy pwyntiau yn eich cais rhag ofn y byddwch yn brin o bwyntiau yn sgil dewis cynnal opsiwn rheoli ar dir anghymwys.

Map y Cais

Byddwn yn rhoi map eich cais am Glastir Sylfaenol i chi yr un pryd â'ch pecyn ymgeisio. Mae'r mapiau'n dangos rhai nodweddion tir a gwybodaeth sy'n berthnasol i Glastir Sylfaenol. Bydd yn dangos tir mewn SoDdGA, coetir fel y'i diffinnir ar gyfer Glastir Sylfaenol, tir sydd â henebion rhestredig, Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol a chyrsgiau dŵr.

Bydd angen i chi ddangos union leoliad, gan gynnwys arwynebedd a hyd, eich Opsiynau Rheoli ar eich map Glastir Sylfaenol.

Mae'n bwysig eich bod yn anfon y map â'ch marciau arno yn ôl atom gan ddilyn y Canllaw ar gyfer Marcio Map Cais Glastir Sylfaenol

Ffurflen Gais

Ar y ffurflen gais amgaeedig, byddwn yn printio manylion eich holl barseli cymwys sydd gennym ar ein LPIS. Cyfanswm arwynebedd y parseli hyn yw'r arwynebedd rydym wedi'i ddefnyddio i gyfri'ch trothwy pwyntiau ac wedi'i ragbrintio ar eich ffurflen gais. Bydd angen i chi newid eich ffurflen gais os oes unrhyw barseli nad ydynt mwyach yn gymwys e.e. nad oes gennych reolaeth arnynt am oes y contract neu os ydy'r tir wedi cael ei werthu. Bydd tynnu tir o'ch cais yn newid arwynebedd y tir cymwys felly bydd angen ailgyfri'ch trothwy pwyntiau. Os ydych wedi cael tir newydd sy'n bodloni'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun, ychwanegwch y caeau hynny at eich ffurflen gais. Gofalwch fod hwn yn gywir a'i gywiro os oes angen.

Sut i Wneud Cais

Cyn gwneud cais am Glastir Sylfaenol, mae camau pwysig y dylech eu cymryd a therfynau amser y dylech wybod amdanynt. Gallai'r rhestr camau ac ystyriaethau isod eich helpu i lenwi'ch cais.

Cam 1: Darllen y Llyfrynnau Esboniadol

Pan gewch chi'ch pecyn ymgeisio (gan gynnwys eich mapiau Glastir Sylfaenol), mae'n bwysig eich bod yn darllen yr holl lyfrynnau esboniadol yn ofalus.

Cam 2: Gofalu bod y mapiau a'r manylion sydd wedi'u rhagbrintio ar eich ffurflen gais yn gywir

Gofalwch fod yr holl dir yr ydych am ei gynnwys yn eich Glastir Sylfaenol yn cael ei ddangos ar eich mapiau a'ch ffurflen gais. Gofalwch fod yr holl dir sydd wedi'i brintio yn Adran 5 eich ffurflen gais a'i nodi ar eich mapiau yn gymwys am y cynllun (Gweler Rhan 1, Adran B y llyfryn hwn). Os oes parseli cymwys heb eu cynnwys, rhaid i chi eu rhestru ar y llinellau gwag yn Adran 5 y ffurflen gais.

Os byddwch yn ychwanegu neu'n dileu parseli neu'n peidio â chynnwys coetir neu dir o dan Gytundeb Rheoli CNC, bydd yn rhaid i chi ailgyfri'r trothwy pwyntiau Glastir Sylfaenol rydych wedi'i ddewis.

Cam 3: Dewis Opsiynau Rheoli

Gan ddefnyddio'ch map Glastir Sylfaenol, mapiau SAF 2013 a/neu 2014 a'ch adnabyddiaeth o'ch fferm, dewiswch eich Opsiynau Rheoli a ble rydych chi am eu cynnal nhw.

Rydym yn eich cyngori i gerdded o gwmpas y fferm i sicrhau bod yr Opsiynau Rheoli rydych wedi'u dewis a'u lleoliadau yn addas. Er enghraifft: gofalwch fod y berth/gwrych rydych wedi'i dewis ar gyfer Opsiwn Rheoli 6 *Perth Fylchog â Ffens Ddwbl* o leiaf 20 metr o hyd rhwng corneli'r cae a bod o leiaf 25% ohoni heb blanhigion perthi. Bydd yn rhaid i chi gadarnhau hefyd a yw'r tir yn dir wedi'i wella neu'n gynefin er mwyn gofalu bod yr Opsiwn Rheoli yn cael ei gynnal yn y lle cywir.

Yn ogystal ag ystyried lleoliad yr opsiwn, bydd gofyn i chi wybod arwynebedd neu hyd yr Opsiwn Rheoli i chi allu cyfri'ch pwyntiau. Bydd yn rhaid i chi fesur pob arwynebedd neu hyd i chi allu eu datgan yn gywir.

Mae'n bwysig bod eich mesuriadau'n gywir gan y byddant yn effeithio ar eich cais i ymuno â'r cynllun.

Mae Tabl Crynhoi'r Opsiynau Rheoli yn *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: y Canllaw Technegol* yn nodi'r unedau y dylech eu defnyddio i fesur pob opsiwn. Bydd peth o'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i allu mesur arwynebeddau o'r data ar eich SAF 2013. Gallwch ddefnyddio'ch mapiau Glastir Sylfaenol i'ch helpu i fesur hyd opsiynau. Lle rydych yn datgan darnau newydd o dir, bydd gofyn i chi fynd at y safle a'u mesur.

Mae'n bwysig os ydych yn dewis Opsiwn Rheoli i dyfu cnwd fydd yn rhan o'r cylchdro cynydau, eich bod gofalu bod digon o dir cymwys ar gael i chi gynnal yr Opsiwn Rheoli hwnnw arno yn y dyfodol.

Cam 4: Cael pob caniatâd angenrheidiol

I gynnal rhai Opsiynau Rheoli, bydd angen caniatâd arnoch gan sefydliadau penodol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)). Os na chaiff y caniatâd ei roi i chi, bydd yn rhaid i chi ffeindio lle arall i gynnal yr opsiwn neu ddewis opsiwn arall. Ewch i Ran 3, Adran 6 ac Atodiad 1 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* am fwy o fanylion.

Cam 5: Gofalu'ch bod wedi cyrraedd neu groesi'ch trothwy pwyntiau ar y tir sydd gennych sy'n gymwys am Glastir Sylfaenol.

Ar ôl dewis eich Opsiynau Rheoli, gofalu'ch bod wedi cyrraedd neu groesi'ch trothwy pwyntiau trwy eu cyfrif ar y cerdyn sgorio electronig (cewch weld y cerdyn sgorio a'r canllaw cysylltiedig yn:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/scheme/s/glastir/121016awe/?skip=1&lang=cy>

Os ydych yn cyfri'r sgôr eich hunan â llaw, darllenwch Atodiad 4 y *Llyfryn hwn* am fwy o wybodaeth.

Rydym yn eich cyngori i gasglu o leiaf 10% yn fwy o bwyntiau na'r trothwy pwyntiau er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o bwyntiau ar ôl cadarnhau'ch ffurflen gais.

Cam 6: Marcio Opsiynau Rheoli ar eich Map

Marciwch bob Opsiwn Rheoli rydych wedi'i ddewis ar eich map yn glir ac mor gywir â phosib. Bydd yn rhaid i chi gyflwyno'ch map Glastir Sylfaenol a'r ffurflen gais er mwyn i ni allu nodi lleoliad pob un o'ch Opsiynau Rheoli ar ein cyfrifiaduron. Am ragor o wybodaeth ynghylch marcio lleoliad opsiynau ar eich map, darllenwch 'Canllaw ar Farcio Map Cais Glastir Sylfaenol'.

Cam 7: Llenwi'ch Ffurflen Gais Glastir Sylfaenol

Mae'r cyfarwyddiadau llawn ar sut i llenwi'ch ffurflen gais, gan gynnwys sut i nodi'ch opsiynau, i'w gweld yn Atodiad 3 y *Llyfryn hwn*.

Cam 8: Cadarnhau bod y Ffurflen Gais yn gywir

Cadarnhewch eich bod wedi llenwi **holl** adrannau perthnasol y ffurflen gais. Gofalu'ch hefyd fod rhywun ag awdurdod yn arwyddo'r ffurflen. Os na fydd eich ffurflen wedi'i

harwyddo, ni allwn ei derbyn.

Cam 9: Cyflwyno'ch cais i Lywodraeth Cymru

Caiff ceisiadau fydd yn cyrraedd erbyn 30 Medi 2014 eu prosesu mewn pryd i'r contract allu dechrau ar 1 Ionawr 2015.

Byddwn yn anfon crynodeb atoch o'ch ffurflen gais. Os gwelwch unrhyw gamgymeriadau ar y crynodeb, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol er mwyn iddyn nhw allu cywiro'ch cais.

Os ydych am newid unrhyw beth yn eich cais, anfonwch y manylion trwy llythyr at eich Swyddfa Ranbarthol y cyfle cyntaf gewch chi. Bydd gofyn am newid eich cais yn golygu y bydd angen mwy o amser arnom i'w brosesu ac efallai y bydd yn rhaid gohirio dechrau'ch Contract Glastir.

Cam 10: Mapio a dilysu Glastir Sylfaenol

Caiff yr opsiynau y byddwch wedi'u dewis ar eich cais eu mapio a'u dilysu. Os na fyddwch wedi casglu digon o bwyntiau, bydd angen i chi ddewis rhagor o opsiynau i groesi'ch trothwy.

Os gwelir bod angen, efallai y cewch eich gwahodd i gyfarfod mapio yn 2014, i ddatrys unrhyw broblemau y byddwn wedi dod ar eu traws wrth ddilysu'ch cais. Os bydd hynny'n gymwys, byddwn yn anfon dyddiad y cyfarfod mapio atoch. Bydd y llythyr yn cynnwys rhestr o'r dogfennau y bydd gofyn i chi ddod â nhw gyda chi a byddwn am gael cadarnhad gennych y byddwch yn gallu dod iddo.

Cam 11: Cynnig y Contract

Unwaith y caiff eich cais Glastir Sylfaenol ei ddilysu'n llawn a'ch bod wedi casglu digon o bwyntiau i groesi'ch trothwy, byddwn yn cynnig contract i chi. Dylech arwyddo cynnig eich contract a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru o fewn 21 niwrnod ar ôl i chi ei gael.

Os bydd angen newid unrhyw beth cyn dyddiad cychwyn eich contract (1 Ionawr 2015), rhowch wybod i'ch Swyddfa Ranbarthol trwy llythyr. Efallai y bydd gofyn i chi fynd i gyfarfod mapio arall. Gallai cais i newid eich contract sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwnnw olygu gohirio'ch dyddiad cychwyn am 12 mis.

ADRAN F: NEWID EICH CONTRACT

Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract Glastir Sylfaenol

Wrth arwyddo'ch Contract Glastir, rydych yn gwneud ymrwymiad am 5 mlynedd. Os byddwch ar ôl ei arwyddo yn gwneud penderfyniad busnes i werthu'r tir tra bod eich contract yn fyw, mae'n debygol y bydd gofyn i chi ad-dalu'r arian neu gael eich cosbi'n ariannol os na fydd y perchennog/tenant newydd yn cymryd ymrwymiad Glastir y tir oddi arnoch.

Rydym yn eich cyngori i gysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl cyn trosglwyddo neu werthu tir. P'run bynnag, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ar y ffurflen Gais Cynnal Caeau am dir sydd wedi'i drosglwyddo neu ei werthu o fewn 30 diwrnod ar ôl ei drosglwyddo. Gallai peidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru eich bod wedi trosglwyddo neu werthu tir o fewn 30 diwrnod ar ôl ei drosglwyddo gael ei weld fel tramgwydd yn erbyn rheolau'r cynllun a byddwch yn debygol o gael eich cosbi.

Rhowch wybod i'r darpar feddiannydd am ymrwymiad Glastir cyn i chi drosglwyddo neu werthu tir sydd o dan gontract iddo. Os na fydd y meddiannydd newydd am ysgwyddo'r ymrwymiad, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r holl daliadau sydd wedi'u gwneud ar y tir hwnnw.

Os oedd Opsiynau Rheoli'n gofyn i chi gynnal gwaith cyfalaf fel ffensio, plannu coed, creu cloddiau ac ati, bydd gofyn i chi ei gwblhau cyn trosglwyddo neu werthu'r tir os ydy'r meddiannydd newydd am ysgwyddo'r ymrwymiad.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu'r tir, rhaid i chi ailgyfrif sgôr y tir sydd gennych ar ôl a phennu trothwy pwyntiau newydd. Os bydd eich sgôr newydd yn is na'r trothwy pwyntiau newydd, bydd yn rhaid i chi gynnal Opsiynau Rheoli ychwanegol. Os dewiswch chi beidio â pharhau â'ch Contract Glastir neu os nad yw'r tir sy'n weddill yn bodloni'r amodau, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r holl arian sydd wedi'i dalu i chi ar y tir hwnnw.

Os oes gan y meddiannydd newydd Gontract Glastir eisoes a'i fod yn dewis cymryd eich ymrwymiad chi oddi arnoch, caiff ei gontract ei ailsgorio a chaiff drothwy pwyntiau newydd, i ystyried y tir sydd wedi'i brynu. Os bydd y sgôr newydd yn is na'r trothwy pwyntiau newydd, bydd yn rhaid iddo gynnal Opsiynau Rheoli ychwanegol. Bydd yn rhaid iddo gynnal serch hynny yr holl Opsiynau Rheoli oedd ar y tir o dan ei gontract gwreiddiol. O dan rai amgylchiadau, bydd modd newid yr Opsiynau Rheoli ar y tir sy'n cael ei brynu.

Os nad oes gan y meddiannydd newydd Gontract Glastir a'i fod yn dewis cymryd yr ymrwymiad oddi arnoch, caiff y meddiannydd newydd naill ai barhau â'r ymrwymiad ar y tir y mae'n ei brynu am weddill cyfnod y contract neu arwyddo contract newydd 5 mlynedd ar gyfer ei holl dir. Yn y ddau achos, caiff y contract ei ailsgorio a chaiff drothwy pwyntiau newydd i ystyried y newid yn y tir. O dan rai amgylchiadau, bydd modd newid yr opsiynau ar y tir sy'n cael ei brynu.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan gontract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion amgylcheddol Contract Glastir wedi'u tanseilio o'r herwydd, gallai'r contract gael ei derfynu ac efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

Cael Rhagor o Dir yn ystod Cyfnod y Contract

Os caiff tir ei drosglwyddo i chi ar ôl dechrau'ch contract ac nad yw'r tir hwnnw o dan Contract Glastir, ni chewch ychwanegu'r tir hwn at eich Contract Glastir. Ni fydd angen cadw at God y Fferm Gyfan ar y tir newydd, ond cofiwch, fe fydd angen cadw at y gofynion Trawsgydymffurfio ar y tir newydd.

Y Gofyn i'n Hysbysu am Newidiadau i'r Tir

Rhaid i chi roi gwybod i'ch Swyddfa Ranbarthol am newidiadau i'ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd. Gallai'r newidiadau hynny gynnwys:

- Cofrestru caeau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag IACS o'r blaen (h.y. caeau heb eu cofnodi ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF))
- Rhannu caeau yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol
- Newid ffiniau caeau
- Newid nodweddion parhaol caeau

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y newidiadau hyn ar y *Ffurflen Gais Cynnal Caeau (FM)*. Holwch eich Swyddfa Ranbarthol am gopi ac anfonwch hi ati cyn pen 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

Yn ogystal â'r newidiadau a restrir uchod, bydd gofyn i chi roi gwybod i'ch Swyddfa Ranbarthol o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd am unrhyw newidiadau i feddianwyr y tir gan gynnwys perchennog newydd neu denantiaeth newydd. Cofiwch, cewch eich cosbi os na wnewch chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen.

Newid i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â'r newidiadau hynny ar ôl cael eich hysbysu amdany'n nhw. Os caiff y contract ei newid yn sylweddol a'ch bod yn ei chael yn amhosibl cydymffurfio â'r newid, gallwch derfynu'r contract heb orfod ad-dalu taliadau, cyn belled â bod Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo hynny.

Newid Rheolau'r Cynllun

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddarau'r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau'r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) a lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.

Newid Amodau Rheoli

Ambell waith, gallwn roi caniatâd ysgrifenedig i chi newid yr Opsiynau Rheoli neu ofynion y cynllun am gyfnod. Rhaid i chi gael ein caniatâd ni i newid y contract. Gwnewch hynny trwy gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol. Byddwn yn gosod terfynau amser ar gyfer pob newid dros dro o'r fath. Os na fyddwch yn cadw at y terfyn amser neu os na chewch chi ganiatâd ysgrifenedig i'r newid dros dro, gallech gael eich cosbi a gallem ofyn i chi ad-dalu taliadau neu efallai dod â'ch contract i ben.

RHAN 2: Torri Rheolau'r Cynllun, Cosbau ac Archwiliadau

ADRAN A: COSBAU

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi am orddatgan neu danddatgan tir, am dorri rheolau'r cynllun ac am beidio â bodloni'r safonau trawsgydymffurfio.

Tanddatgan

Os na fyddwch yn datgan holl dir amaethyddol eich daliad ar y Ffurflen Cais Sengl (yr holl dir rydych yn berchen arno a'r tir sydd gennych ar rent ac nid dim ond y tir sy'n dod o dan Glastir e.e. coetir/coedwigaeth, traciau, buarthau, arwynebau caled ac ati), gallai'ch taliadau Cynllun Datblygu Gwledig a Chynllun Taliad Sengl gael eu lleihau.

Os oes gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd yr ydych yn ei ddatgan a chyfanswm arwynebedd y daliad y dylech fod wedi'i ddatgan, bydd taliadau'r cynlluniau'n cael eu lleihau fel a ganlyn:

Gwahaniaeth

hyd at 3%

mwy na 3% a hyd at 20%

mwy na 20% a hyd at 50%

mwy na 50%

Lleihad

dim lleihad

1% o leihad yn y taliad

2% o leihad

3% o leihad

Gorddatgan

Os gwelir bod arwynebedd y grŵp cnydau'n fwy na'r hyn sydd wedi'i ddatgan, yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfri'r taliad. Fel arfer, dim ond taliadau'r cynllun y digwyddodd y gorddatgan ynddo fydd yn cael eu lleihau. Os bydd y gorddatgan yn arwain at gario cosb ymlaen i'r flwyddyn ganlynol, gallai taliad unrhyw gynllun gael ei leihau e.e. Datblygu Gwledig a Thaliad Sengl.

Grwpiau cnydau yw'r darnau o dir sy'n derbyn yr un gyfradd gymorth

Os bydd y gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan fwy na 3% neu 2 hectar, ond ddim fwy nag 20%, yn fwy na'r arwynebedd sydd wedi'i weld (mewn archwiliad) ar gyfer grŵp cnydau, bydd yr arwynebedd sy'n gymwys am daliad yn cael ei leihau o ddwywaith y gwahaniaeth.

Enghraifft:

Mae ffermwr yn datgan mai arwynebedd ei grŵp cnydau yw 20 hectar ond gwelir mewn archwiliad mai 17 hectar yw'r gwir arwynebedd. Gan mai 3 hectar neu 17.65% yw'r gwahaniaeth, bydd y taliad yn cael ei wneud ar 11 hectar, sef 17 hectar minws 6 hectar (3 hectar x 2).

Os bydd y gwahaniaeth yn fwy nag 20% o'r gwir arwynebedd (sydd wedi'i weld), ni chaiff y ffermwr daliad ar gyfer y grŵp cnydau dan sylw.

Enghraifft:

Mae ffermwr yn datgan mai arwynebedd y grŵp cnydau yw 28 hectar ond gwelir mewn archwiliad mai 22 hectar yw'r gwir arwynebedd. Mae 6 hectar yn werth 27.27% o'r 22 hectar. Ni chaiff y ffermwr daliad ar y grŵp cnydau hwnnw.

Os bydd yr arwynebedd sy'n cael ei ddatgan fwy na 50% yn fwy na gwir arwynebedd y grŵp cnydau, yn ogystal â pheidio â chael ei dalu ar gyfer y grŵp cnydau dan sylw, bydd hawliad y ffermwr yn y flwyddyn galendr nesaf yn cael ei leihau o swm yr un faint â'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd gafodd ei ddatgan a'r arwynebedd gafodd ei weld.

Os na fydd modd cymryd y swm cyfan o daliadau'r flwyddyn galendr nesaf, bydd y gweddill yn cael ei gymryd o daliadau'r ddwy flynedd wedi hynny, yn ôl y gofyn. Os bydd yn rhaid lleihau'r taliad yn y tair blynedd ar ôl y gorddatgan, gellir lleihau taliadau'r Cynllun Taliad Sengl a thaliadau'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Gorddatgan yn fwriadol

Os byddwch yn fwriadol yn gorddatgan tir o fewn grŵp cnydau, ni chewch daliad y flwyddyn honno os ydy'r gwahaniaeth rhwng yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan a'r arwynebedd sy'n cael ei weld yn fwy na 0.5% o'r gwir arwynebedd neu'n fwy na 1 hectar.

Os bydd y gwahaniaeth yn fwy nag 20% o'r arwynebedd o fewn yr un grŵp cnydau, ni chaiff y ffermwr ei dalu'r flwyddyn honno. Yn ogystal, bydd yr hawliad yn y flwyddyn galendr nesaf yn cael ei leihau o swm yr un faint â'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr arwynebedd gafodd ei ddatgan a'r arwynebedd gafodd ei weld.

Os na fydd modd cymryd y swm llawn o daliadau'r flwyddyn galendr nesaf, caiff y gweddill ei dynnu o daliadau'r ddwy flwyddyn ganlynol, yn ôl y gofyn. Os oes angen cosbi taliadau'r tair blynedd dilynol oherwydd gorddatgan, gellir tynnu'r arian o daliadau'r Cynllun Taliad Sengl ac unrhyw daliad Datblygu Gwledig.

Gallai gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid arwain at achos troseddol. Y ddedfryd fwyaf fydd dirwy heb gyfyngiadau neu ddwy flynedd o garchar.

Torri'r Contract

Os byddwch chi'n torri'ch contract, byddwn ni'n cosbi'ch taliad Glastir Sylfaenol.

Cynhelir archwiliadau gweinyddol ac ar y fferm i weld a ydych yn torri rheolau, ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r rheolau, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau at lefel briodol gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd a ph'un a oedd o fwriad neu drwy esgeulustod, a gallem ei gymhwyso i daliadau'r flwyddyn flaenorol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei

gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Amaeth-amgylcheddol arall am hyd at ddwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrices wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrices cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) neu yn eich Swyddfa Ranbarthol.

Trawsgydymffurfio

Bydd gofyn i chi allu profi'ch bod yn cadw'ch tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylchedd Da (CAAD - GAEC yn Saesneg) a'ch bod yn cadw at y Gofynion Rheoli Statudol (SMR), sef rheolau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd, iechyd planhigion ac anifeiliaid a lles anifeiliaid.

"Trawsgydymffurfio" yw'r gair sy'n cael ei ddefnyddio yn rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd i ddisgrifio'r CAAD a'r SMR a bydd yn rhaid cadw at bob un ohonyn nhw ar holl dir amaethyddol y daliad (tir sy'n eiddo i chi a thir sydd gennych ar rent), nid dim ond ar y tir rydych yn ei ddefnyddio i hawlio Glastir Sylfaenol. Rhaid cadw at reolau Trawsgydymffurfio hefyd ar dir anamaethyddol. Cewch fanylion llawn Trawsgydymffurfio yn "*Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio*" (fel y'i diwygiwyd) sydd ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk).

Bydd cyfrifoldeb arnoch i fodloni'r holl safonau Trawsgydymffurfio am y flwyddyn galendr lawn ar hyd oes eich Contract. Os na fyddwch yn bodloni'r Gofynion Rheoli Statudol neu'r safonau CAAD, boed yn fwriadol neu drwy esgeulustod, gallech gollu'ch taliad Glastir, taliadau cynlluniau arwynebedd eraill Datblygu Gwledig (ymrwymadau a gychwynnodd o 1 Ionawr 2007) a thaliadau'r Cynllun Taliad Sengl neu ran ohonynt, a hynny am flwyddyn neu fwy. Wrth benderfynu o faint y caiff eich taliad ei leihau, byddwn yn ystyried pa mor fawr, difrifol, parhaol ac ailadroddus y bu'r achos o anghydymffurfio a phwy yn union sy'n gyfrifol amdano. Hefyd, fe allai'r cyrff gorfodi perthnasol eich erlyn am dorri un o'r Gofynion Rheoli Statudol.

Os ydych yn rhentu'ch tir i ffermwr arall nad yw'n hawlio taliad a'i fod yntau yn torri'r safonau ar y tir hwnnw, bydd hynny'n effeithio ar eich taliad chi, gan mai'ch cyfrifoldeb chi yw cadw at y safonau Trawsgydymffurfio.

Os byddwch yn trosglwyddo tir i rywun arall neu'n trosglwyddo tir i mewn, dylech ystyried amodau unrhyw gytundeb rhyngoch a'r sawl sy'n rhoi neu sy'n cael y tir. Dylech ddiogelu'ch hunan rhag ofn bod y ffermwr sydd naill ai'n rhoi neu sy'n cael y tir yn torri rheol Trawsgydymffurfio ar ôl neu cyn trosglwyddo'r tir.

Cewch fwy o wybodaeth am gosbau Trawsgydymffurfio ar Lyfryn Rheolau y Cais Sengl ac ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk

ARCHWILIADAU

Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau'r cynllun Glastir, gan gynnwys y safonau Trawsgydymffurfio. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau fferm a defnyddio'r Systemau Lleoli Global a lluniau o'r awyr a chan loeren.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal a bydd yn gweithio ar y cyd â chyrrff gorfodi arbenigol eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, i gynnal archwiliadau Trawsgydymffurfio. Fe all staff o'r cyrrff hyn ymweld â ffermydd gyda staff Llywodraeth Cymru i'w harchwilio.

Archwiliadau Fferm

Efallai y bydd angen i swyddogion archwilio gyfrif a chadarnhau nifer yr anifeiliaid ar eich fferm a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb dogfennau a chofnodion. Pan fydd angen archwilio anifeiliaid, efallai bydd yn rhaid archwilio'r fuches neu'r ddiadell gyfan. Bydd disgwyl i chi grynhoi'r anifeiliaid i le cyfleus a gwneud yn siŵr bod llafur a chyfleusterau digonol ar gael i'w trin.

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymadau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a'r corff gorfodi'n gwneud eu gorau glas i aflonyddu cyn lleied â phosib arnoch ond mae rhai archwiliadau'n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall hynny olygu na allwn roi rhybudd i chi. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu'n rhwystro'r archwilydd neu'n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli'ch taliad a chael eich erlyn.

Cadw Cofnodion

Rhaid i chi gadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a'ch bod wedi cadw at eich ymrwymadau, am hyd at 6 mlynedd ar ôl taliad ola'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys copiâu o ddogfennau gwreiddiol lle bo tir y contract wedi'i drosglwyddo neu ei werthu. Mae yna hefyd gofnodion da byw a chofnodion gweithgarwch rheoli y mae'n rhaid eu cadw hefyd ar gyfer Cod y Fferm Gyfan a rhai Opsiynau Rheoli. Fe welwch dempledi ar gyfer y Dyddiadur Stocio a'r Dyddiadur Gwaith yn Atodiad 2 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* ac ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk.

Force Majeure ac Amgylchiadau Eithriadol

Bydd Llywodraeth Cymru'n barod i dderbyn y gallai force majeure neu amgylchiad eithriadol rwystro ffermwr rhag cadw at ei ymrwymadau. Os felly, mae'n bosibl na chaiff ei gosbi. Force majeure yw "amgylchiadau anarferol y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, na fyddai'r ffermwr er gwaetha' pob gofal wedi gallu osgoi eu canlyniadau heb aberth ormodol". Ymhlith y digwyddiadau a allai gael eu hystyried yn force majeure ac yn amgylchiadau eithriadol y mae:

- Marwolaeth ffermwr/buddiolwr
- Salwch tymor hir sy'n rhwystro'r ffermwr/buddiolwr rhag gweithio

- Trychineb naturiol ddifrifol sy'n effeithio'n andwyol ar dir y daliad
- Damwain sy'n dinistrio adeiladau da byw ar y daliad
- Clefyd episootig sy'n effeithio ar y da byw neu rai ohonynt
- Colli rhan fawr o'r daliad os nad oedd modd rhagweld hynny ar ddiwrnod gwneud yr ymrwymiad.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y force majeure neu'r amgylchiad eithriadol trwy lythyr o fewn 10 niwrnod gwaith wedi i chi neu rywun sydd â'r hawl i wneud allu gwneud hynny. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau. Er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ei bwysu a'i fesur, rhaid dangos tystiolaeth bendant bod y digwyddiad wedi digwydd. Dylai'r ffermwr wneud yn siŵr felly ei fod yn rhoi cymaint o dystiolaeth â phosibl gyda'i lythyr i gefnogi ei achos a'u hanfon i'w Swyddfa Ranbarthol.

Ar gyfer cynlluniau Datblygu Gwledig, bydd force majeure ac amgylchiadau eithriadol ar gael o dan yr amgylchiadau canlynol:

- cyflwyno cais yn hwyr
- yr hawl i daliad ar dir cymwys sydd wedi'i ddatgan ar y SAF ond nid yw ar gael i chi mwyach oherwydd y force majeure/amgylchiadau eithriadol
- y gofyn i ad-dalu'r arian sydd wedi'i dalu neu ran ohono.

RHAN 3: Glastir – Tir Comin

CYFLWYNIAD

Mae tir comin yng Nghymru'n adnodd amaethyddol, amgylcheddol, hamddena a diwylliannol pwysig ac mae'r elfen bori yn enwedig yn rhan bwysig o'n traddodiad ffermio gan chwarae rôl allweddol o ran rheoli cynefinoedd a thirwedd Cymru.

Tir sy'n gymwys ar gyfer ei gynnwys o dan yr elfen hon:

- Tir amaethyddol yng Nghymru sydd wedi'i gofrestru'n gyfreithlon fel tir comin o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 ac sy'n cael ei ddefnyddio gan fwy nag un porwr.
- Tir heb ei amgáu sy'n cael ei bori gan fwy nag un porwr yr un pryd sydd â nodweddion tir comin ond nad yw wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965 ac y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei fod yn dir cymwys ar ôl cynnal asesiad technegol.

Yr unig gynllun fel arfer sydd ar gael ar gyfer tir fel y'i diffinnir uchod yw Glastir – Tir Comin. Bydd y contract hwn yn wahanol i'r Contract Glastir a fydd gennych ar gyfer tir eich fferm gartref.

Er mwyn cael ymuno â Glastir – Tir Comin, rhaid i borwyr ffurfio cymdeithas bori (a chael statws cyfreithiol iddi cyn arwyddo'r contract) gydag o leiaf 80% o'r porwyr actif ar y tir sy'n dod o dan y Contract yn aelodau ohoni.

Mae tair elfen i'r cynllun: Trawsgydymffurfio, Cod Glastir – Tir Comin ac Opsiynau Rheoli Tir Comin. Caiff yr ymgeisydd ddewis un o ddau Opsiwn Rheoli a) rheoli lefelau stocio neu b) peidio â phori'r comin am gyfnod dros y gaeaf.

Cofrestru a Mynegi Diddordeb

Er mwyn cofrestru ar gyfer Glastir – Tir Comin, rhaid i chi:

- Gofrestru'r Gymdeithas Bori fel cwsmer gyda Llywodraeth Cymru cyn i chi fynegi diddordeb, gan ddefnyddio'r ffurflen "*Manylion y Cwsmer (Cymru) (CDW)* oddi wrth eich Swyddfa Ranbarthol, i gael Cyfeirnod Cwsmer
- Mynegi'ch diddordeb yn Glastir – Tir Comin gan ddefnyddio "*Ffurflen Mynegi Diddordeb yn Glastir – Tir Comin*", sydd ar gael gan eich Swyddfa Ranbarthol
- Gofalu fod yr holl dir comin wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

Dyddiadau Pwysig

Dechrau cyfnod mynegi diddordeb Cymdeithasau Pori gyda Llywodraeth Cymru	1 Mawrth 2014
Diwedd cyfnod mynegi diddordeb Cymdeithasau Pori gyda Llywodraeth Cymru	30 Ebrill 2014
Dechrau cyfnod ymgeisio Glastir – Tir Comin 2014	15 Gorffennaf 2014
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen Glastir – Tir Comin	31 Awst 2014

Maint y Taliad

Telir taliad safonol o £34 yr hectar. Hefyd, bydd taliad o £6 yr hectar yn cael ei dalu ar gyfer hyd at 500 hectar am gostau sefydlu. Bydd y manylion llawn i'w gweld ym mhhecyn ymgeisio Glastir – Tir Comin.

Cewch fwy o wybodaeth am Glastir – Tir Comin yn llyfryn Glastir – Tir Comin sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) ac o'ch Swyddfa Ranbarthol.

Swyddogion Datblygu Tir Comin

Bydd Swyddogion Datblygu Tir Comin yn cael eu penodi ledled Cymru i roi cyngor ac arweiniad ar sut i ymuno â Glastir – Tir Comin. Holwch eich Swyddfa Ranbarthol am eu manylion cysylltu.

RHAN 4: GLASTIR - GRANTIAU EFFEITHIOLRWYDD

Cyflwyniad

Grant cyfalaf yw Grantiau Effeithiolrwydd Glastir i ffermwyr sydd â Contract Glastir. Ei nod yw helpu ffermwyr i wneud eu busnesau a'u hadnoddau'n fwy effeithiol, ac i leihau'r allyriadau carbon sy'n cael eu rhyddhau gan ddaliadau amaethyddol a garddwrol. Bydd y grant ar gael i helpu ffermwyr i fuddsoddi mewn technoleg ac offer newydd iddynt allu defnyddio ynni, dŵr a thail/slyri yn fwy effeithlon. Rhaid gofalu mai busnes y fferm sy'n cael y lles mwyaf o'r grant – ni chewch ei ddefnyddio ar gyfer gwaith domestig nac i arallgyfeirio.

Bydd y themâu canlynol yn cael eu hystyried yn gymwys:

- **Arbed ynni** – rhestr o eitemau cyfalaf cymeradwy y profwyd eu bod yn arbed ynni – gan gynnwys gyriannau amrywio cyflymder, platiau cyfnewid gwres, rheolyddion awyru/tymheredd, systemau goleuo rhad-ar-ynni;
- **Arbed dŵr** – gan gynnwys offer casglu dŵr glaw a systemau ailgylchu dŵr e.e. pypiau sefydlog, systemau ffitro UV, gwaith pibau a thanciau storio;
- **Defnyddio tail a slyri yn fwy effeithlon** – gan gynnwys eitemau cyfalaf i storio mwy o slyri ar y fferm. Drwy hyn, bydd y ffermwr yn gallu amseru'n well pryd y dylai wasgaru'r slyri i ateb gofynion planhigion yn well a chanlyniad hynny fydd lleihau'r angen am wrtaith anorganig. Bydd unrhyw storfa slyri newydd neu estynedig a fydd yn derbyn grant yn gorfod gallu dal gwerth 5 mis o slyri.

Maint y Grant

Dim ond ffermwyr fydd wedi arwyddo Contract Glastir fydd yn gymwys am y grant. Ni fydd ffermwyr sydd â contract Glastir – Tir Comin **yn unig** yn cael gwneud cais am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir.

Bydd grant ar gael ar gyfer hyd at 40% o'r gwariant cymwys (50% ar gyfer Ffermwyr Ifanc). Bydd grantiau'n amrywio o leiafswm o £2,000 (h.y. 40% o fuddsoddiad o £5,000 o gyfalaf) i uchafswm o £50,000 fesul Contract Glastir.

Mynegi Diddordeb

Bydd ffermwyr sydd am wneud cais am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir yn gorfod mynegi diddordeb yn y Grantiau ar ffurflen gais Glastir Sylfaenol 2015. (Darllenwch Atodiad 3 – Sut i Lenwi Ffurflen Gais Glastir Sylfaenol a Mynegi Diddordeb yn y Grantiau Effeithiolrwydd). Bydd y rheini sydd eisoes wedi mynegi diddordeb yn cael eu cynnwys yn otomatig yn y broses ddewis. Bydd y broses ddewis yn cael ei chynnal bob blwyddyn, gan ddibynnu ar faint o arian fydd ar gael bob blwyddyn.

Bydd y data a gesglir yn sgil y Mynegiant o Ddiddordeb yn cael ei ddefnyddio i roi busnesau fferm yn eu trefn yn ôl themâu'r Grantiau Effeithiolrwydd Glastir y mae'r ffermwr wedi dangos diddordeb ynddynt. Y ffermwyr fydd yn bodloni'r amodau ac a fydd uchaf ar y rhestr ar gyfer eu themâu fydd yn cael eu dewis.

Oherwydd maint y galw posibl am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir, bydd y **broses ddewis** yn cael ei rhedeg i gael hyd i'r busnesau fferm hynny fydd yn gallu defnyddio'r buddsoddiad i greu'r effaith fwyaf. O gael eich dewis, cewch **wahoddiad** i wneud cais am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir.

Cewch fwy o wybodaeth am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir yn Llyfryn Esboniadol Grantiau Effeithiolrwydd Glastir a'r Llawlyfr Sut i Lenwi sydd ar gael i chi eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) ac yn y Swyddfeydd Rhanbarthol.

RHAN 5: GLASTIR UWCH

Amcan Glastir Uwch yw gwella'n sylweddol statws amgylcheddol amrywiaeth o gynefinoedd, rhywogaethau, priddoedd a dŵr. Gallai ofyn hefyd am newid arferion ffermio. Er mwyn sicrhau'r gwelliannau a'r canlyniadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n targedu'r ardaloedd fydd yn rhoi'r canlyniadau a ddymunir.

Byddwch wedi arwyddo Contract Glastir i gael ymuno â Glastir Uwch.

Os ydych wedi dewis y Trothwy Lefel Is ar gyfer Glastir Sylfaenol, ni chewch eich ystyried ar gyfer Glastir Uwch.

Mynegi Diddordeb

Os nad ydych eisoes wedi Mynegi Diddordeb yn Glastir Uwch, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol i fynegi'ch diddordeb.

Y Broses Ddewis

Mae set o fapiau targed wedi'u datblygu ar gyfer yr holl amcanion y bydd Glastir Uwch yn gobeithio eu cyflawni. Byddwn yn asesu gallu'ch fferm i wireddu'r amcanion fydd wedi'u rhestru ar y mapiau targed a bydd yn cael sgôr yn ôl faint ac amrywiaeth yr hyn y bydd modd ei wneud arni. Bydd y sgôr yn cael ei addasu yn ôl maint y fferm fel na fydd ffermwyr mwy ar eu hennill o'u cymharu â ffermydd llai.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â'r rheini fydd wedi mynegi diddordeb i drafod canlyniad yr asesiad yn hydref 2014.

Bydd Rheolwr Contract yn ymweld â chi os bydd eich fferm wedi cael mwy na throthwy penodol. Bydd yr hyn y bydd gofyn i'r ffermwr ei wneud yn dibynnu pa ardal darged y mae'r fferm ynddi. Er enghraifft, os ydy'r fferm mewn dalgylch dŵr targed ac ardal ystlumod pedol lleiaf, amcanion y contract â'r fferm honno fydd rheoli'r tir er lles dŵr ac er lles ystlumod. Bydd yr Opsiynau Rheoli y bydd rheolwr y contract yn cael eu hystyried yn dod o'r rhestr o Opsiynau Rheoli er lles dŵr a'r Opsiynau Rheoli er lles ystlumod pedol lleiaf.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn y rownd gyntaf, byddwch yn cael eich cadw yn y broses ddewis a gallech fod yn llwyddiannus yn y dyfodol. Gallai sail y broses sgorio targed newid yn y dyfodol i adlewyrchu blaenoriaethau polisi newydd. Mae hynny'n golygu na fydd sgôr isel ym mlwyddyn un o angenrheidrwydd yn golygu sgôr isel yn y dyfodol.

Mae rhestr lawn o'r Opsiynau Rheoli a'r Gwaith Cyfalaf ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk).

Glastir Uwch ar Dir Comin

Bydd Cymdeithasau Pori sydd wedi cael eu dewis ar gyfer Glastir – Tir Comin yn cael eu hasesu hefyd ar gyfer eu dewis ar gyfer Glastir Uwch a byddwn yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad y broses ddewis honno.

RHAN 6: GLASTIR – COETIROEDD

Cyflwyniad

Mae dau gynllun ar gael trwy Glastir - Coetiroedd sy'n cynnig help ar gyfer rheoli coetiroedd sy'n bod eisoes ac ar gyfer creu coetir newydd.

Glastir - Rheoli Coetir (GWM)

Bydd ffermwyr a rheolwyr tir sydd â mwy na 0.5 hectar o goetir yng Nghymru mewn un llain yn gallu gwneud cais am y GWMS. Bydd cyfnod ymgeisio nesaf Rheoli Coetir Glastir yn dechrau ym mis Ebrill 2014. Mae grantiau ar gael i dargedu mesurau rheoli sy'n creu canlyniadau positif, gan gynnwys y canlynol:

- Teneuo – gwella datblygiad fflora'r llawr ac aildyfiant naturiol y coed o had trwy adael mwy o oleuni i lawr y goedlan, yn ogystal â darparu pren marw;
- Ailstocio – lle bo hyn yn arwain at fwy o amrywiaeth o rywogaethau o goed, yn helpu adferiad Coetir Hynafol a Blannwyd (PAWS) ac yn arwain at wella swm ac ansawdd dŵr;
- Ffiniau – diogelu'r coetir rhag stoc neu gadw rheolaeth well ar stoc lle bo pori'n fuddiol
- Seilwaith – dechrau rheoli coetir a oedd cyn hynny yn anodd mynd ato;
- Rhywogaethau wedi'u diogelu ac sydd â blaenoriaeth - i'w helpu i fridio'n llwyddiannus ac i oroesi;
- Rheoli'r llystyfiant – i reoli planhigion goresgynnol egsotig a brodorol sy'n gallu tagu a bygwth coetir, yn ogystal â rheoli llennyrrch a llwybrau'n well;
- Mynediad i'r cyhoedd – grantiau amrywiol i wella mynediad at goetir a darparu gwybodaeth a dihangfa i ymwelwyr.

Os hoffech fanylion llawn GWM, a sut i ymgeisio, ewch i:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/glastirwoodland/;jsessionid=AB7F14D34BB700570BA41ED5F9205A6E?skip=1&lang=cy>

Glastir - Creu Coetir (GWC)

Mae Glastir - Creu Coetir (GWC) yn cynnig amrywiaeth o grantiau ar gyfer creu coetiroedd brodorol a chymysg newydd ar dir amaethyddol a thir anamaethyddol. Mae grant ar gael hefyd ar gyfer codi ffensys i ddiogelu egin coed rhag stoc.

Mae mapiau creu coetiroedd strategol wedi'u llunio i ddangos lle gellid creu coetiroedd. Cewch weld y mapiau hyn yn www.forestry.gov.uk/cymru.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am GWC 2014, ewch ar wefan Llywodraeth Cymru.

Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)

I gael GWCP, rhaid eich bod wedi plannu coetir o dan Gynllun Creu Coetir Glastir a'ch bod wedi cynnal y coetir hwnnw. Rhaid i chi beidio â'i bori na thyfu cnwd arno am oes contract GWCP.

Taliad yw Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP) i ddigolledu pobl am incwm y maen nhw'n ei gollu, sef £300/ha/blwyddyn am 15 mlynedd i ffermwyr a £66/ha/blwyddyn am 15 mlynedd i reolwyr tir nad ydynt yn ffermwyr.

RHAN 7: CYFFREDINOL

Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol i chi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos;
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawriad ysgrifenedig a £100 am wrandawriad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol llwyddiannus.

Rhaid i chi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan eich Swyddfa Ranbarthol.

Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich swyddfa ranbarthol.

Mae croeso i chi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
1 Ffordd yr Hen Gae
Pen-coed
CF35 5LJ.

Deddf Diogelu Data 1998: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar ffurflen gais Glastir Sylfaenol neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais i ymuno â chynlluniau Glastir, neu wybodaeth sy'n cael ei chreu neu ei chael o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru ymhlith pethau eraill yn rhannu peth gwybodaeth ag asiantaethau a chyrrff cyhoeddus eraill ac yn darparu peth i'r cyhoedd ei gweld.

Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymiaidau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1290/2005
- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 73/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1120/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1122/2009
- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1698/2005
- Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1974/2006
- Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 65/2011

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu'ch cais am Glastir Sylfaenol. Fe gaiff Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantwyr) ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiaidau amgylcheddol statudol.

Yn ôl Rheoliadau'r UE, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r safonau 'Trawsgydymffurfio' cyn cael taliad. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ffermwyr gadw at y rheolau a geir yn 18 o Gyfarwydddebau'r Comisiwn Ewropeaidd (gweler Atodiad II Rheoliad y Cyngor (EC) 73/2009). Yr asiantaethau sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio â'r cyfarwydddebau hyn ac y caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â nhw yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol
- Arolygiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- 22 Awdurdod Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU

Mae Erthyglau 8 (a) ac (e) Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd (EC) 1122/2009, yn dweud yn glir bod angen creu system effeithiol ar gyfer rheoli Trawsgydymffurfio. Bydd hynny'n golygu rhannu'r wybodaeth angenrheidiol rhwng yr asiantaethau talu a'r awdurdodau rheoli.

Rhesymau dros Rannu Data Personol

Defnyddir yr wybodaeth a geir gan ymgeiswyr yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd y partneriaid yn croesgyfeirio ac yn croeswirio gwybodaeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol y maent yn eu gweinyddu;
- Gweinyddu ceisiadau;
- Cynhyrchu mapiau sy'n dangos y tir sy'n dod o dan y cytundebau;
- Llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau, ar gyfer eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru;
- Paratoi crynodebau ystadegol ;
- Rhoi gwybodaeth i weinidogion iddynt allu gwneud penderfyniadau ynghylch

- newid polisiâu ac ariannu;
- Cysylltu â pherchnogion / defnyddwyr tir mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau;
- Diogelu hawliau ffermwyr mewn cadwraeth tir ac i ateb ymholiadau ynghylch ariannu;
- I bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol;
- Datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau ei Mawrhydi, Cyllid y Wlad a'r heddlu, lle bo lles y cyhoedd yn gofyn am hynny;
- Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Am fwy o wybodaeth, gweler y paragraff isod: Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth.

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n ei chadw at ddiben prosesu cais yn cael ei rheoli ganddi yn unol â'i hymrwymiaadau a'i dyletswyddau o dan:

- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad (EC) rhif 259/2008 y Comisiwn.

Gall aelod o'r cyhoedd felly ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath. Bob tro, wrth wneud, bydd yn cadw at y canllawiau yng Nghod Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae copi o'r Cod i'w weld ar y rhyngwrwd yn:

www.cymru.gov.uk/cyhoeddiadau

www.wales.gov.uk/publications

Yn ôl Rheoliad (EC) rhif 259/2008 y Comisiwn, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gwybodaeth bob blwyddyn am y personau cyfreithiol sy'n derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar un wefan Brydeinig.

Yn unol â'r rheoliad hwnnw, ni chyhoeddir gwybodaeth am bersonau 'naturiol' (e.e. masnachwyr unigol a phartneriaid/grwpiau eraill heb bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân).

Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth ar y Rhyngwrwd am bersonau cyfreithiol sy'n derbyn taliad yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cyhoeddir rhestr ar 30 Ebrill bob blwyddyn gyda manylion y taliadau a wnaed yn y flwyddyn ariannol Ewropeaidd flaenorol (16 Hydref i 15 Hydref). Rhaid cadw'r rhestrau ar y Rhyngwrwd am o leiaf ddwy flynedd.

Byddant ar gael i'w gweld yn:

<http://cap-payments.defra.gov.uk/>

Rhaid i'r wybodaeth gynnwys y manylion canlynol am bersonau cyfreithiol (caiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth arall os bydd y gyfraith yn caniatáu hynny):

- Yr enw masnachu a ddefnyddiwyd wrth hawlio'r taliad
- Enw'r dref leol a rhan gyntaf y cod post (e.e. CF10)
- Faint o arian y mae wedi'i gael yn y cyfnod trwy Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Dyma rai enghreifftiau o'r hawliau hyn, er nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Bod yr wybodaeth bersonol sydd gennym amdanynt yn cael ei phrosesu'n deg a chyfreithlon;
- Yr hawl i gael copïau o'r wybodaeth bersonol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau;
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro Llywodraeth Cymru rhag prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n gwneud niwed neu'n achosi gofid;
- Yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.

Bydd hawl gan unigolion hefyd ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar Ddeddf Diogelu Data 1998, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r Ddeddf.

Nid aiff yr wybodaeth y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd oni bai bod rheswm da dros wneud hynny (e.e. pe bai clefyd yn mynd ar led). Os bydd rheswm da, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud yn siwr bod yr wybodaeth yn dal i gael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Gofyn am fwy o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Atodiad 1: Enghraifft o Indemniad

Pan fydd angen Gweithred Ymrwymo ac Indemniad rhwng Tenant a Landlord

Fel arfer, er mwyn bod yn gymwys am Glastir Sylfaenol, mae gofyn bod gan denant reolaeth lwyr ar gyfran y tir/yr holl dir gafodd ei gynnwys yn ei gais a hynny am gyfnod llawn ei contract Glastir.

Os na fydd gennych reolaeth lwyr am gyfnod llawn y contract ar gyfran y tir/yr holl dir sydd wedi'i gynnwys yn eich cais, rhaid cyflwyno Gweithred Ymrwymo ac Indemniad wedi'i harwyddo gennych chi a chan eich landlord fel rhan o'ch cais. Gweler ENGHRAIFFT o Weithred isod.

Pwysig: Os bydd angen i chi gyflwyno Gweithred Ymrwymo ac Indemniad, darllenwch Lyfryn 1 Glastir Sylfaenol – Y Canllaw Cyffredinol (a hefyd Llyfryn 2 – y Canllaw Technegol a Chanllaw Meddiannaeth Tir Glastir) cyn gwneud hynny.

Bydd gofyn i chi gyflwyno'ch Gweithred gyda'ch cais Glastir Sylfaenol. Cadwch gopi o'ch ffurflen Indemniad hefyd ar gyfer eich ffeiliau.

ENGHRAIFFT O WEITHRED YMRWYMO AC INDEMNIAID

Gwneir y weithred hon ar y _____ dydd o _____ rhwng

(1) (enw llawn) o (cyfeiriad gohebu) (y "Landlord")

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN), os oes ganddo un: _____

(2) (enw llawn) o (cyfeiriad post) (y "Tenant") a

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN): _____

YN GYMAINT AG MAI

(1) Y Landlord yw deiliad y rhydd-ddaliad neu sydd â'r rhan fwyaf o'r budd yn y tir neu diroedd a adwaenir wrth yr enw _____ (cyfeiriad neu ddisgrifiad o'r eiddo â'r denantiaeth) (yr "Eiddo") a ddisgrifir yn fanylach yn Nhabl 1 y ddogfen hon.

(2) Mae'r Landlord (wedi arwyddo Tenantiaeth dyddiedig _____ yn bwriadu arwyddo Tenantiaeth) – dileer yn ôl y gofyn ("y Denantiaeth") mewn perthynas â'r Eiddo â'r Denantiaeth

(3) Mae'r tenant am arwyddo contract ('y Contract') â Llywodraeth Cymru o dan y cynllun Glastir sy'n cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru ("Glastir") mewn perthynas â thir ar y safle sy'n destun y Denantiaeth ("Tir y Contract").

MAE'R WEITHRED HON YN TYSTIO'R CANLYNOL

(1) Mae'r landlord wedi darllen a deall Llyfrynnau Esboniadol Glastir Sylfaenol, gan gynnwys y Canllaw Technegol, sy'n ymwneud â'r cynllun y mae'r tenant yn gwneud cais amdano.

(2) Os daw rheolaeth y Tenant ar Dir y Contract, neu ran ohono, i ben, y landlord fydd wedi hynny â rheolaeth ar Dir y Contract neu ba ran bynnag ohono na fydd o dan reolaeth y Tenant, a hynny am weddill y contract.

(3) Tra bo rhydd-ddaliad Tir y Contract ym meddiant y Landlord, mae'r Landlord yn ymrwymo i'r Tenant, pan ddaw'r Denantiaeth neu unrhyw ran ohoni i ben a'i phasio'n ôl i'r Landlord, i gadw Tir y Contract yn unol ag amodau Glastir Sylfaenol a sicrhau bod holl ymrwymadau'r Contract mewn cysylltiad â Thir y Contract yn cael eu cyflawni'n briodol tan y daw'r Contract a wnaed rhwng y Tenant a Llywodraeth Cymru o dan y cynllun Glastir i ben.

(4) Bydd y Landlord yn indemneiddio'r Tenant rhag colledion, costau, taliadau a'r treuliau y gallai'r Tenant orfod eu hysgwyddo, yn enwedig mewn cysylltiad ag ad-dalu arian i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i dorri Contract o'r fath yn sgil dod â'r Denantiaeth neu unrhyw ran ohoni i ben a throsglwyddo'r rheolaeth amdano i'r Landlord.

TYSTIR BOD bod pob parti'r weithred hon wedi cyflawni'r weithred hon ym mhresenoldeb tystion a'i darparu ar y diwrnod a'r flwyddyn a nodwyd.

Wedi'i llofnodi fel gweithred gan
y sawl a enwir uchod (landlord) _____ (llofnod y landlord)

ym mhresenoldeb _____ (llofnod y tyst)

(cyfeiriad y tyst) _____ (enw'r tyst)

Dydd: _____ Blwyddyn: _____

Wedi'i harwyddo fel gweithred gan
y sawl a enwir uchod (tenant) _____ (llofnod y tenant)

ym mhresenoldeb _____ (llofnod y tyst)

(cyfeiriad y tyst) _____ (enw'r tyst)

Dydd: _____ Blwyddyn: _____

Tabl 1

(3) Y Landlord yw deiliad rhydd-ddaliad caeau canlynol IACS (System Integredig Gweinyddu a Rheoli).

Cyfeirnod y Ddalen	Rhif Cae IACS	Rhif y Rhan	Cyfanswm Maint y Cae

Atodiad 2: Tabl Nodweddion Anghymwys

Mae'r tabl isod yn dangos y nodweddion anghymwys chewch chi ddim taliad arnynt trwy Glastir Sylfaenol, ond byddant yn cael eu cynnwys yn eich contract.

NO1	GWEITHGAREDDAU ANAMAETHYDDOL
ZZ89	ADEILADAU / BUARTHOU
ZZ92	ARWYNEBAU CALED
ZZ93	PYLLAU DWR
ZZ94	HEOLYDD
ZZ95	SGRI/CRAIG/BRIGIAD/MEINI
ZZ97	TRACIAU (heb eu pori)

Atodiad 3: Sut i Lenwi Ffurflen Gais Glastir Sylfaenol a Mynegi Diddordeb yn y Grantiau Effeithiolrwydd

Sut i Lenwi'ch Ffurflen

Mae pob ffurflen yn cael ei sganio'n electronig gan system gyfrifiadurol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosesu ceisiadau. Mae'n bwysig felly'ch bod yn ei llenwi'n ofalus iawn.

- 1) Defnyddiwch inc **DU** yn unig. Defnyddiwch **BRIF LYTHRENAU**.
- 2) Rhowch groes **X** ymhob blwch perthnasol wrth ateb cwestiwn **ie** neu **nage**. Peidiwch â rhoi tic
- 3) Peidiwch â defnyddio hylif cywiro na rhwygo tudalennau o'r ffurflen nac amgáu tudalennau wedi'u ffotocopiö
- 4) Ysgrifennwch o fewn y blychau llwyd a gadewch fwch rhwng enwau a/neu eiriau

H U W J O N E S

ADRAN 1 - MANYLION Y BUSNES

Yn yr adran hon, rydym wedi rhagbrentio'r manylion sydd gennym am eich busnes adeg argraffu'r ffurflen. Os oes unrhyw fanylion yn anghywir, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol.

ADRAN 2 - GWYBODAETH AM FUSNES GLASTIR

Arwynebedd y fferm i gyfri'r trothwy (ha)

Dyma gyfanswm arwynebedd yr holl barseli tir sydd wedi'u rhestru yn Adran 5. Os byddwch yn dewis opsiynau 45, 46A, 46B neu 46C a'u bod wedi'u lleoli ar Nodweddion Parhaol (gweler Atodiad 2), bydd gofyn i chi gynyddu'ch trothwy pwyntiau i roi ystyriaeth i'r tir ychwanegol hwn.

Arwynebedd dan goed (ha)

Dyma gyfanswm arwynebedd yr holl leiniau o goed sydd fwy na 0.5 hectar ac sy'n cael eu dangos ar y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI).

Arwynebedd dan Gytundeb Rheoli CNC (ha)

Dyma gyfanswm arwynebedd y tir sydd o dan Gytundeb Rheoli Adran 15 ac Adran 16 gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) gynt). Mae'r tir hwn yn cael ei ddangos ar fap eich cais.

Arwynebedd dan goed a Chytundeb Rheoli CNC (ha)

Dyma arwynebedd y coetir NFI a'r tir o dan Gytundeb Rheoli CNC gyda'i gilydd ond heb gynnwys unrhyw orgyffwrdd rhwng y ddau.

Trothwy Pwyntiau'ch Fferm Gyfan

Mae'ch trothwy pwyntiau wedi'i gyfrif trwy luosi'r ffigur yn 'Arwynebedd y fferm i gyfri'r trothwy' â 34 pwynt yr hectar (Lefel Mynediad Safonol) neu 17 pwynt yr hectar (Lefel Mynediad Is).

Cod eich Pecyn Rhanbarthol

Mae hwn yn seiliedig ar god post eich prif fferm.

Os ydy'ch cod yn rhychwantu ffin dau Becyn Rhanbarthol, bydd gennych ddau Becyn Rhanbarthol i ddewis ohonynt. Os mai yn Lloegr y mae cod post eich prif fferm, byddwn wedi rhoi Pecyn Rhanbarthol i chi sy'n adlewyrchu lleoliad eich tir yng Nghymru.

C1. Rhif Ffôn Symudol

- Opsiynol: os nad oes rhif wedi'i brintio neu os ydy'r rhif sydd wedi'i brintio yn anghywir, rhowch rif eich ffôn symudol.

ADRAN 3 – CAIS AM GLASTIR SYLFAENOL

C2 Trothwy Lefel Mynediad Is

- Os mai'ch ateb i'r cwestiwn hwn yw **Na**, cewch eich rhoi'n otomatig yn y Trothwy Lefel Mynediad Safonol.
- Os mai'ch ateb i'r cwestiwn hwn yw **Ydw**, cofiwch, ni fyddwch yn gymwys am Glastir Uwch, ond fe fyddwch yn dal i fod yn gymwys i geisio am grantiau Effeithiolrwydd Glastir.

C3. Peidio â chynnwys coetir

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, ni fyddwch yn cynnwys unrhyw goetir sydd ar y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (NFI) yn eich contract. Bydd hyn yn lleihau'ch Trothwy Pwyntiau.
- Ni chewch eich talu ar y tir hwn os ydych yn tynnu'r coetir o'ch contract.

C4. Tir o dan Gytundeb Rheoli CNC

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, ni fyddwch yn cynnwys unrhyw dir sydd o dan Gytundeb Rheoli gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn eich contract.
- Ni chewch eich talu ar y tir hwn os ydych yn ei dynnu o'ch contract.

C5. Cynnal opsiynau mewn SoDdGA, GNG, ACA neu AGA

- Atebwch y cwestiwn hwn os oes gennych dir ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardal Gwarchod Arbennig (AGA).
- Atebwch **ydw** os ydych am gynnal opsiynau yn unrhyw rai o'r safleoedd hyn.

C6. Contractau Llaeth

- Os bydd gennych gontract llaeth gyda phrynwr llaeth neu gwmni llaeth ar 1 Ionawr 2015 am gyfnod llawn y Contract Glastir a'ch bod am gael y Bonws Godro o 10%, rhowch **ydw** fel eich ateb.
- Cewch symud eich contract llaeth at gwmni gwahanol yn ystod oes y contract cyn belled nad oes bwch rhwng y contractau.
- Os oes yn well gennych ddewis Pecyn Rhanbarthol, na fydd eich ateb i'r cwestiwn hwn ac **ydw** fydd eich ateb i gwestiwn 7a gan na chewch ddewis y bonws godro a Phecyn Rhanbarthol.

Pwysig: Rhaid cyflwyno copi o'ch contract llaeth gyda'ch cais, os ydych yn dewis yr opsiwn hwn.

C7a. Pecyn Rhanbarthol

- Os mai **ydw** yw'ch ateb a'ch bod yn dewis y Pecyn Rhanbarthol, bydd gennych restr o opsiynau i ddewis ohonynt a byddwch yn cael 10% yn fwy o bwyntiau am bob opsiwn. Bydd gofyn i o leiaf 75% o'ch pwyntiau ddod o'r opsiynau sydd ar gael i chi fel rhan o'r Pecyn Rhanbarthol.
- Bydd cod eich Pecyn Rhanbarthol i'w weld yn Adran 2.
- Darllenwch Ran 3, Adran 4 Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol am Becynnau Rhanbarthol.

C7b.

- Os dewisoch chi fynd am Becyn Rhanbarthol yn C7a a bod gennych god mwy nag un Pecyn Rhanbarthol, rhaid i chi nodi Cod y Pecyn Rhanbarthol rydych wedi'i ddewis.

ADRAN 4 – OPSIYNAU GLASTIR SYLFAENOL – HEB FOD AR SAIL PARSELI

C8a. Opsiwn 14 – Yr Opsiwn Chwistrellu 100% o'r Slyri

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, rhaid bod gennych ddigon o le i storio o leiaf 100m³ o slyri (yn cyfateb i 100,000 litr) i fedru dewis yr opsiwn hwn.

C8b. Opsiwn 14b – Opsiwn Chwistrellu 75% o'r Slyri

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, rhaid bod gennych ddigon o le i storio o leiaf 100m³ o slyri (yn cyfateb i 100,000 litr) i fedru dewis yr opsiwn hwn.

C8c. Os mai **ydw** yw'ch ateb i 8a neu 8b, rhaid i chi nodi yn y fan yma faint o le sydd gennych i storio slyri.

Nodyn pwysig ar gyfer cyfrif faint o le sydd gennych i storio slyri:

- i) Mesur storfa sgwâr neu hirsgwar:
 $\text{Hyd (m)} \times \text{lled (m)} \times \text{dyfnder (m)} = \text{lle mewn metrau ciwbig (m}^3\text{)}$
- ii) Mesur storfa gron ar ben tir:
 $3.142 \times [\text{radiws (m)} \times \text{radiws (m)}] \times \text{uchder (m)} = \text{lle mewn metrau ciwbig (m}^3\text{)}$

Cofiwch fod angen bwlch o 750mm rhwng gwefus y storfa a'r slyri mewn lagwnau pridd a 300mm mewn lagwnau concrid neu danciau dur ar ben y tir. Peidiwch â chyfrif y bwlch hwn at gyfanswm eich storfeydd.

C9. Opsiwn 37 Opsiwn y Bridiau Brodorol Prydeinig

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, er mwyn medru cynnal yr opsiwn hwn, bydd gofyn i chi gadw anifeiliaid pedigri cofrestredig sydd ar y rhestr awdurdodedig o Fridiau Brodorol Prydeinig mewn Perygl ar eich tir a/neu eu hepil y mae modd eu holrhain trwy eu genynnau. Darllenwch Lyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol am y manylion.
- Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, nodwch faint o anifeiliaid fydd gennych ar 01 Ionawr 2014 yn y categorïau cymwys.

Pwysig: Bydd angen i chi gyflwyno copi o'ch dogfennau cofrestru anifeiliaid gyda'ch cais os byddwch yn cynnal yr opsiwn hwn.

C10. Opsiwn 38 – Opsiwn y Blychau Adar / Ystlumod

- Os mai **ydw** yw'ch ateb, rhaid i chi nodi faint o flychau adar a/neu ystlumod rydych am eu gosod.
- Ni chaniateir mwy na 20 o flychau adar ac ystlumod newydd gyda'i gilydd.

ADRAN 5 – OPSIYNAU GLASTIR SYLFAENOL AR SAIL PARSELI

Rydym wedi printio yn yr Adran hon y manylion diweddaraf dilys sydd gennym ar ein System Adnabod Parseli Tir am barseli'ch busnes.

Dileu caeau

- I ddileu cae, rhowch X yn y golofn ddileu. Rhaid i chi ddileu unrhyw gaeau na fydd gennych reolaeth lwyr arnynt am oes y contract.

Colofn Arwynebedd Trothwy

- Arwynebedd y cae heb y nodweddion parhaol nad ydynt yn gymwys am daliad Glastir.

Colofn Nodiadau

- Mae'r golofn nodiadau yn dangos gwybodaeth am y cae penodol. Darllenwch y tabl isod am restr lawn o'r nodiadau printiedig.

Nodyn	Disgrifiad	Esboniad	
1	Parsel heb ei gofrestru ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru	Ddim yn gymwys.	
2	Ffermwr arall yn hawlio ar y parcel hwn ar SAF 2013	Nodyn i dynnu'ch sylw bod rhywun arall yn hawlio ar y tir hwn ar SAF 2013 ar gyfer cynllun arall. Nid yw dau ffermwr yn cael hawlio ar yr un tir. Darllenwch Adran C y llyfryn hwn.	
P1	Ardal Warchod 1	Wiwer goch	Mae rhai opsiynau wedi'u gwahardd ar y parcel hwn am ei fod mewn Ardal Warchod. Darllenwch yr Adran am "Ardaloedd Gwarchod" yn Llyfryn Esboniadol 2 Glastir Sylfaenol: Canllaw Technegol am fwy o wybodaeth.
P2	Ardal Warchod 2	Llygoden y dŵr	
P3	Ardal Warchod 3	Planhigion âr prin	
P4	Ardal Warchod 4	Gwas neidr clwbgrwt	
P5	Ardal Warchod 5	Brân goesgoch	
P6	Ardal Warchod 6	Ddim yn gymwys	
P7	Ardal Warchod 7	Britheg (iâr fach yr haf)	

Colofn Deiliadaeth

- Yn y golofn hon, rydym wedi printio'r codau deiliadaeth rydym wedi'u cael gennych ar eich ffurflenni SAF blaenorol neu y gwnaethoch eu newid wedi hynny ar y Ffurflen Cynnal Caeau (FM). Rhestrir y codau isod:

A - Tenantiaeth Amaethyddol Lawn (o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986)

B - Tenantiaeth Busnes Fferm (o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995)

C - Tenantiaethau llafar

O - Yn eiddo i chi

F – Yn eiddo i chi ond wedi'i rentu allan (gellwch barhau i gynnwys y caeau hyn cyn belled â'ch bod yn cadw'r rheolaeth lwyr arnynt).

- Os ydy'r ddeiliadaeth wedi newid, bydd angen i chi gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol.

Colofn Indemniad Landlord

- Bydd angen indemniad (gwarant) landlord arnoch ar gyfer cae sydd â chod deiliadaeth A, B neu C arno os bydd y denantiaeth yn debygol o bara llai na 5 mlynedd cyfnod y contract.
- Os ydy'r landlord wedi cytuno i roi gwarant, rhowch X yn y golofn i gynnwys y tir hwnnw yn eich contract.
- Bydd gofyn i chi ddod â gwarant y landlord gyda chi pan fyddwch yn mynd i'r cyfarfod mapio neu bostiwch ef os nad oes angen i chi fynychu cyfarfod mapio.

Ychwanegu Tir Newydd

- Dylech ychwanegu caeau cymwys ychwanegol yn y rhesi gwag ar ddiwedd Adran 5 hyd yn oed os nad ydych yn cynnal opsiynau yn y caeau hynny.
- Os ydych yn bwriadu cynnal opsiynau ar y tir hwn, rydym yn eich cyngori i gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol i gael manylion Glastir y tir hwn.
- Os ydych chi'n cynnwys parseli ychwanegol sydd heb eu cofrestru yn eich ffurflen gais, rhaid i chi lenwi a chyflwyno "*Ffurflen Gais Cynnal Caeau*". Holwch eich Swyddfa Ranbarthol am gopi.

ADRAN 6 – MANYLION STOCIO AR GYFER OPSIYNAU 41A A 41B

Mae'r Adran hon yn nodi yn unig y lefelau stocio uchaf yr hectar ar gyfer y caeau hynny sydd wedi'u cynnwys yn eich cais sy'n gymwys ar gyfer cynnal opsiynau 41A a 41B ynddynt.

Mae'r lefelau stocio uchaf yn cael eu dangos ar gyfer pob chwarter o'r flwyddyn. Nodyn pwysig: mae'r lefelau stocio'n cael eu dangos fesul hectar, ac NID fesul cae.

Os nad oes caeau wedi'u printio yn Adran 6, ewch yn eich blaen yn syth i Adrannau 7A a 7B.

ADRANNAU 7A A 7B – OPSIYNAU GLASTIR SYLFAENOL

Darllenwch yr adran hon yn ofalus cyn llenwi Adrannau 7A a 7B ar y ffurflen.

Dylech ddefnyddio'r adran hon i nodi'r holl gaeau rydych am gynnal Opsiynau Rheoli arnynt (heblaw opsiynau 14, 14B, 37 a 38 sydd wedi'u cynnwys yn Adran 4).

Rhaid llenwi colofnau 3 a 4 i gynnwys unrhyw gaeau rydych am gynnal Opsiynau Rheoli ynddynt.

Dylech ddefnyddio Adran 7A, colofnau 5 i 8 ar y dudalen ochr chwith i gofnodi'r opsiynau rydych wedi'u dewis sy'n cael eu mesur mewn **hectarau**.

Dylech ddefnyddio Adran 7B, colofnau 10 – 17 ar y dudalen ochr dde i gofnodi'r opsiynau rydych wedi'u dewis sy'n cael eu mesur mewn **metrau, metrau sgwâr neu unedau**.

CAM 1 – Dewis eich caeau

- Rhowch Gyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae yng ngholofnau 3 a 4 ar gyfer pob cae rydych am gynnal Opsiwn Rheoli arno. Y caeau sy'n gymwys ar gyfer eu defnyddio yw'r rheini sy'n cael eu rhestru yn Adran 5.
- Os oes angen cynnwys caeau ychwanegol arnoch, rhaid eu cofnodi hwythau hefyd yn y rhesi gwag yn Adran 5.

CAM 2 – Dewis eich opsiynau sy'n cael eu mesur mewn HECTARAU

- Nodwch Rif yr Opsiwn yng ngholofn 5 (gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU os oes angen).
- Nodwch yr arwynebedd hyd at ddau le degol yng ngholofn 6.
- Os ydych am gynnal ail opsiwn rheoli sy'n seiliedig ar hectarau yn yr un parcel, defnyddiwch golofnau 7 ac 8.
- Ni ddylai arwynebedd colofnau 6 ac 8 gyda'i gilydd fod yn fwy nag Arwynebedd Trothwy pob cae (gweler Adran 5).
- Os ydych am gofnodi mwy na 2 opsiwn sy'n cael eu mesur mewn **hectarau**, dylech nodi yr un rhif cae ar ail linell wag a llenwi'r colofnau perthnasol.

CAM 3 – Dewis eich opsiynau sy'n cael eu mesur mewn METRAU, METRAU SGWÂR NEU UNEDAU

Darllenwch y tablau crynhoi ar dudalen 2 *Llyfryn 2 Glastir Sylfaenol: Y Canllaw Technegol* i gael gweld pa opsiynau sy'n cael eu mesur mewn unedau penodol.

- Nodwch rif yr opsiwn yng ngholofn 10 (gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU os oes angen).
- Nodwch y nifer cyfatebol yng ngholofn 11.
- Os ydych yn cofnodi opsiynau yn Adran 7B mewn caeau sydd eisoes wedi'u cofnodi yn Adran 7A, defnyddiwch rif y llinell gyfatebol fel ag y mae wedi'i phrintio yng Ngholofnau 2 a 9.
- Os ydych am gofnodi opsiynau ychwanegol sy'n cael eu mesur mewn metrau, metrau sgwâr neu unedau yn yr un cae, defnyddiwch golofnau 12 ac 13, 14 ac 15, a/neu 16 ac 17.
- Os ydych am gofnodi mwy na 4 opsiwn sy'n cael eu mesur mewn metrau, metrau sgwâr neu unedau, dylech gofnodi'r un rhif cae ar ail linell wag a llenwi'r colofnau perthnasol.

CAM 4 – Dileu camgymeriadau

- Os ydych wedi gwneud camgymeriad, rhowch X yng ngholofn 1 i ddileu'r rhes honno.

ADRAN 8 – MYNEGI DIDDORDEB YN GRANTIAU EFFEITHIOLRWYDD GLASTIR

Nodyn Pwysig: I fod yn gymwys am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir, bydd eich prif ddaliad yng Nghymru a bydd unrhyw gyfalaf yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru.

Rhaid ateb pob cwestiwn. Rhowch **X** yn y blwch perthnasol wrth ateb cwestiynau **ie** neu **nage**.

C11 – Rwyf am geisio am Grantiau Effeithiolrwydd Glastir

- Os **Na**, ewch yn syth i Adran 9.
- Os **Ydych**, rhaid ateb cwestiynau 12, 13, ac 14.

C12 – Dewis eich themâu

- Rhowch **ydw** wrth unrhyw thema y mae gennych ddi-ddordeb ynddi.
- Os mai **ydw** yw'r ateb i'r thema Arbed Tail a Slyri, rhaid i chi nodi faint o le sydd gennych i storio slyri.

Nodyn pwysig ar gyfer cyfrif faint o le sydd gennych i storio slyri:

- Mesur storfa sgwâr neu hirsgwar:
 $\text{Hyd (m)} \times \text{lled (m)} \times \text{dyfnder (m)} = \text{lle mewn metrau ciwbig (m}^3\text{)}.$
- Mesur storfa gron ar ben tir:
 $3.142 \times [\text{radiws (m)} \times \text{radiws (m)}] \times \text{uchder (m)} = \text{lle mewn metrau ciwbig (m}^3\text{)}.$

Cofiwch fod angen bwlch o 750mm rhwng gwefus y storfa a'r slyri mewn lagwnau pridd a 300mm mewn lagwnau concrid neu danciau dur ar ben y tir. Peidiwch â chyfrif y bwlch hwn at gyfanswm eich storfeydd.

Wrth fesur lagwn clawdd, cofiwch fod yr ochrau'n goleddfu tua'r canol.

Nodyn Pwysig: Parthau Perygl Nitradau (NVZ) – Ni fydd ffermwr mewn NVZ yng Nghymru yn cael dewis thema arbed tail/slyri Grantiau Effeithiolrwydd Glastir. Bydd ffermwyr mewn NVZ yn gallu cael eu hystyried ar gyfer themâu eraill - arbed ynni ac arbed dŵr.

RHAID ATEB CWESTIYNAU 13 AC 14 GAN Y BYDDAN NHW'N DYLANWADU AR Y BROSES DDEWIS

C.13

- Dylai'r data a rowch ddisgrifio'ch daliad adeg llenwi'r ffurflen hon.
- Gofalwch fod y data'n gywir. Byddwn yn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth. Gallai rhoi gwybodaeth anwir arwain at wrthod cais neu ofyn i chi ad-dalu'r grant.

Ffermydd mewn mwy nag un wlad

- Gofalwch fod yr anifeiliaid sy'n cael eu cofnodi yn cael eu cadw yng Nghymru.

Colofn: Systemau slyri

- Nodwch faint o anifeiliaid sydd ar system slyri yn y golofn hon. Mae systemau slyri'n cynnwys system slatiau a system crafu slyri (gan gynnwys slyri sy'n cael ei grafu o fan bwydo sy'n ffinio â man gorwedd dan wellt).
- Ystyr slyri yw deunydd hylifol neu led-hylifol sydd wedi'i wneud o:
 - a) tail a gynhyrchir gan anifail mewn buarth neu adeilad (gan gynnwys corlannau o sglodion coed) neu
 - b) cymysgedd sydd wedi'i wneud yn llwyr neu'n bennaf o dail da byw, deunydd gorwedd da byw, dŵr glaw a golchion o adeilad neu fuarth sy'n cael ei ddefnyddio gan anifeiliaid - sy'n ddigon tenau i allu cael ei bympio neu i lifo gyda disgyrchiant ar unrhyw adeg o broses ei drin.

Gwartheg

- Nodwch sawl anifail sy'n cael ei gadw o dan do mewn cyfnod cyffredin o 12 mis.
- Nodwch sawl diwrnod y mae'r anifeiliaid hyn yn cael eu cadw dan do mewn cyfnod cyffredin o 12 mis.
- Nid oes angen cynnwys teirw magu.
- Cynhwyswch deirw eidion yng nghategoriau'r bustych/treisiedi/heffrod.

Moch

- Nodwch nifer y lleoedd moch dan do (peidiwch â chynnwys moch allan).
- Nodwch sawl diwrnod y mae'r moch yn cael eu cadw o dan do mewn cyfnod cyffredin o 12 mis.
- Dylai'r lleoedd moch gynnwys lleoedd sy'n cael eu defnyddio mewn cyfnod cyffredin o 12 mis.

Colofn: System heb Slyri

- Nodwch yn y golofn nifer yr anifeiliaid rydych yn eu cadw mewn system heb slyri.

C.14

Dofednod

- Ar gyfer ieir dodwy a bwyta, nodwch nifer y lleoedd adar.
- Dylai'r lleoedd adar gynnwys lleoedd sy'n cael eu defnyddio mewn cyfnod cyffredin o 12 mis.
- Nodwch lleoedd adar sy'n rhan o system maes neu gaeth yn ôl y gofyn.

Mamogiaid magu

- Nodwch nifer y mamogiaid magu a'r defaid cadw sydd gennych mewn blwyddyn gyffredin.

Arwynebedd Âr ac Arwynebedd Caeau Garddwrol

- Nodwch yr arwynebedd mewn blwyddyn gyffredin sy'n cael ei drin ar gyfer cynhyrchu cynydau i'w gwerthu **oddi ar y fferm**.
- Nodwch yr arwynebedd mewn hectarau.

ADRAN 9 - DATGANIADAU AC YMRWYMIADAU

Rhaid darllen y datganiadau a'r ymrwymadau sydd ar y ffurflen gais yn ofalus cyn ei harwyddo.

Datganiad Ffug

Gellid erlyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug neu sydd ddim yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y ffurflen gais hon. Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu peidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y ffurflen hon arwain at wrthod y cais hwn a/neu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud.

Dim ond ymgeisydd sydd wedi cael caniatâd y Busnes i gyflwyno ceisiadau ar ran y Busnes gaiff arwyddo'r ffurflen gais. Rhaid i'r caniatâd hwnnw fod wedi'i roi ar ffurflen "Manylion y Cwsmer (CD(W))".

Pwysig: Os daw cais i law heb lofnod, caiff ei wrthod.

Enw Cyntaf

Rhowch eich enw llawn. Peidiwch â rhoi llythrennau blaen

Enw(au) Canol

Rhowch eich enw llawn. Peidiwch â rhoi llythrennau blaen. Os oes gennych fwy nag un, rhowch bob un ar linell wahanol.

Cyfenw

Rhowch eich cyfenw.

Dyddiad Geni

Dylech ei lenwi os ydych o dan 18 oed.

Rôl

Rhowch god priodol y rôl (gweler y rhestr gyferbyn)

Codau Rôl

- 01= Masnachydd unigol
- 02= Partner
- 03 = Trydydd Parti/Asiant
- 04 = Gwarcheidwad
- 05 = Gweithiwr Cyflog
- 06 = Gweinyddydd y Busnes
- 07 = Gweinyddydd Personol
- 08 = Cyfarwyddwr
- 09 = Rheolwr
- 10 = Ysgrifennydd y Cwmni
- 11 = Ysgutor
- 12 = Derbynnnydd
- 13 = Ysgrifennydd
- 14 = Priod
- 15 = Amhenodol

Dyddiad

Rhowch ddyddiad gwneud y datganiad.

Llofnod

Rhowch eich llofnod yn y fan yma.

RHESTR ATGOFFA

Cyn cyflwyno'ch ffurflen gais, gofalwch:

- eich bod wedi darllen Llyfryn Esboniadol 1 Glastir Sylfaenol: Canllaw Cyffredinol a Llyfryn Esboniadol 2 Glastir Sylfaenol: Canllaw Technegol a'r Llawlyfr Sut i Lenwi hwn yn gyfan cyn llenwi'ch ffurflen gais.
- eich bod wedi ateb **adrannau 2, 3, 4, 5, 7A, 7B, 8 a 9**.
- eich bod wedi darllen y manylion sydd wedi'u rhagbrintio, ac wedi'u cywiro os oes gofyn.
- eich bod wedi cofnodi'r **holl dir cymwys rydych am ei gynnwys o dan Glastir Sylfaenol**, gan gynnwys tir nad ydych eto wedi'i gofrestru.
- eich bod wedi cyflwyno "*Ffurflen Gais Cynnal Caeau*" a mapiau ategol i gofrestru tir newydd a/neu i newid ffiniau parseli.
- eich bod wedi cyrraedd neu groesi'r trothwy pwyntiau.
- bod y ffurflen gais yn cael ei harwyddo gan berson â chaniatâd.
- rydych wedi amgáu map eich cais a'i farcio gan ddangos yr opsiynau rheoli rydych am eu cynnal.

Gallwch ddod â'r ffurflen yn bersonol i unrhyw Swyddfa Ranbarthol neu gallwch ei phostio gan ddefnyddio'r amlen barod amgaeedig. **Cofiwch roi digon o stampiau ar yr amlen.** Rydym yn eich cynghori'n gryf i ddefnyddio Post Cofnodedig (Recorded Delivery) a chadw'r slip papur y bydd y Swyddfa Bost yn ei roi i chi. (Nid yw'r Post Cofnodedig yn gwarantu y gwnaiff yr amlen gyrraedd erbyn dyddiad penodol).

Rydym yn eich cynghori hefyd i ffotocopïo'ch ffurflen gais orffenedig ar gyfer eich ffeiliau. Ni allwn wneud hynny i chi yn y Swyddfa Ranbarthol.

Pan fyddwn wedi sganio'r ffurflen gais ar ein system, byddwn yn anfon llythyr cydnabod atoch gyda chrynodeb o fanylion eich cais fel ag y bydd y broses sganio wedi'u cofnodi. Darllenwch y crynodeb hwn yn ofalus gan ei gymharu â'ch copi chi o'ch ffurflen gais, a rhoi gwybod i'r Swyddfa Ranbarthol trwy lythyr ar unwaith os oes unrhyw beth yn anghywir.

Atodiad 4: Cerdyn Sgorio â llaw Glastir Sylfaenol a Chyfarwyddiadau

Glastir Sylfaenol – Cyfrif eich Trothwy Pwyntiau â llaw

Mae'r canllaw hwn wedi'i baratoi i ddangos i chi sut mae cyfrif eich Trothwy Pwyntiau eich hun a sawl pwynt sydd i bob opsiwn.

Cam 1

Rhowch **Faint y Fferm Gyfan (Ha)** yn y blwch ac yn y blwch **Arwynebedd yn Glastir**, yr arwynebedd ddaw o dan eich contract Glastir (rhaid i'r arwynebedd hwn gynnwys eich holl dir cymwys). Lluoswch yr arwynebedd fydd yn dod o dan Glastir ag 17 (Lefel Mynediad Is) neu 34 (Lefel Mynediad Safonol) i gyfrif y **Trothwy Pwyntiau** y mae'n rhaid i chi ei gyrraedd.

Maint y Fferm Gyfan (Ha):	150
Arwynebedd yn Glastir (Ha):	140
Trothwy Pwyntiau (Ha x 17) neu (Ha x 34)	4760

Cam 2

Nesaf, mae'n rhaid i chi gyfrif Terfyn Pwyntiau pob opsiwn. Cymerwch y canran sydd yn y golofn **Terfyn yr Opsiwn**, rhannwch ef â 100 a lluoswch hwn â'ch **Trothwy Pwyntiau**. Rhowch y ffigur hwn yn y golofn **Terfyn Pwyntiau**. Ailadroddwch hyn ar gyfer pob opsiwn yr ydych am ei gynnwys. Gweler yr enghraifft isod ar gyfer opsiwn 1 (terfyn yr Opsiwn Rheoli yw 75%) ar gyfer fferm â throthwy pwyntiau o 4760.

e.e.

$$75 \div 100 = 0.75$$

$$0.75 \times 4760 = 3570$$

	Maint y Fferm Gyfan (Ha):	150					
	Arwynebedd yn Glastir (Ha):	140					
	Trothwy Pwyntiau (Ha x 17) neu (Ha x 34)	4760					
	OPSIYNAU	PWYNTIAU'R UNED	UNED	TERFYN YR OPSIWN	TERFYN PWYNTIAU	ARWYNEBEDD / NIFER	PWYNTIAU
1	Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi'i wella	2.11	Metr	75%	3570		

Y **Terfyn Pwyntiau** yw'r nifer mwyaf o bwyntiau y cewch ei gynnal ar gyfer yr opsiwn hwnnw a chael taliad amdano. Gallwch fynd dros y terfyn hwn ond ni fydd unrhyw arwynebedd/nifer dros y terfyn yn cael unrhyw bwyntiau na thaliad ychwanegol.

Cam 3

Nodwch faint o bob Opsiwn Rheoli y bydd yn cael ei gynnal yn y golofn **Arwynebedd / Nifer**. Ar gyfer Opsiwn 37, rhaid rhoi nifer yr unedau da byw. Mae'r canllaw ar sut i lenwi'r dyddiadur stocio yn esbonio sut mae cyfrif eich unedau da byw.

Lluoswch **Bwyntiau'r Uned** â'r **Arwynebedd / Nifer**. Y ffigur hwnnw yw nifer y pwyntiau y byddwch wedi'i gynnal ar gyfer yr Opsiwn Rheoli hwnnw a dylech ei nodi yn y golofn **Pwyntiau**.

Er enghraifft (gweler y darlun isod):

Opsiwn 1: 2.11 o bwyntiau'r uned x 300 o nifer = 633 o bwyntiau

Maint y Fferm Gyfan (Ha):	150					
Arwynebedd yn Glastir (Ha):	140					
Trothwy Pwyntiau (Ha x 17) neu (Ha x 34)	4760					
OPSIYNAU	PWYNTIAU'R UNED	UNED	TERFYN YR OPSIWN	TERFYN PWYNTIAU	ARWYNEBEDD / NIFER	PWYNTIAU
1 Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi'i wella	2.11	Metr	75%	3570	300	633
2 Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys clawdd, a phlannu coed a llwyni	3.87	Metr	75%	3570	250	967.5

PWYSIG: Os ydych am gynnal mwy na'r terfyn pwyntiau, rhaid i chi roi'r terfyn pwyntiau yn y golofn bwyntiau oherwydd ni chewch fwy o bwyntiau na therfyn pwyntiau unrhyw opsiwn.

Cam 4

I gyfrif **Cyfanswm y Pwyntiau** adiwrch yr holl bwyntiau rydych wedi'u cyfrif ar gyfer pob Opsiwn Rheoli a rhowch y cyfanswm yn y blwch i sicrhau'ch bod wedi cyrraedd eich trothwy pwyntiau.

	Maint y Fferm Gyfan (Ha):	150					
	Arwynebedd yn Glastir (Ha):	140					
	Trothwy Pwyntiau (Ha x 17) neu (Ha x 34)	4760					
	OPSIYNAU	PWYNTIAU'R UNED	UNED	TERFYN YR OPSIWN	TERFYN PWYNTIAU	ARWYNEBEDD / NIFER	PWYNTIAU
1	Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys plannu coed a llwyni ar dir sydd wedi'i wella	2.11	Metr	75%	3570	300	633
2	Creu coridor 3 metr o led sy'n cynnwys clawdd, a phlannu coed a llwyni	3.87	Metr	75%	3570	250	967.5
5	Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)	0.25	Metr	40%	1904	350	87.5
19B	Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg	109	Ha	80%	3808	20	2180
37	Bridiau Prydeinig brodorol prin	49	UDB	40%	1904	35	1715
					CYFANSWM PWYNTIAU		5583

Rydym yn eich cyngori i gasglu 10% yn fwy na'ch trothwy pwyntiau rhag ofn eich bod wedi camgyfrif eich arwynebedd. Os na fyddwch yn gallu cyrraedd eich trothwy pwyntiau, ni fyddwn yn gallu cynnig contract i chi.

CERDYN SGORIO GLASTIR SYLFAENOL							
	Maint y Fferm Gyfan (Ha):						
	Arwynebedd yn Glastir (Ha):						
	Trothwy Pwyntiau (Ha x 17) neu (Ha x 34)						
	OPSIYNAU	PWYNTIAU'R UNED	UNED	TERFYN YR OPSIWN	TERFYN PWYNTIAU	ARWYNEBEDD / NIFER	PWYNTIAU
						CYFANSWM PWYNTIAU	

Atodiad 5: Manylion Cysylltu

Cewch wybodaeth bwysig ar ein gwefan www.cymru.gov.uk/amgylcheddachefngwlad a'r cylchgrawn deufisol Gwlad www.gwladarlein.org.

Dylech gysylltu yn y lle cyntaf â'r swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caernarfon, Llandrindod a Chaerdydd sy'n derbyn galwadau ffôn rhwng 8.30am a 5.00pm ac ymwelwyr rhwng 9.00am a 4.30pm, Llun-Gwener. Nid yw'r swyddfeydd ardal ar agor mor aml, felly dylai ffermwyr edrych ar ein gwefan i weld eu horiau agor neu ffonio'r swyddfa ardal i drefnu apwyntiad. Dyma'r manylion cysylltu:

SWYDDFEYDD RHANBARTHOL

Swyddfa Ranbarthol Caernarfon

Adeiladau'r Llywodraeth
Penrallt
Caernarfon LL55 1EP
Ffôn: 01286 674144 Ffacs: 01286 677749
E-bost: agriculture.caernarfon@wales.gsi.gov.uk

Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin

Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
Caerfyrddin SA31 3BT
Ffôn: 01267 225300 Ffacs: 01267 235964
E-bost: agriculture.carmarthen@wales.gsi.gov.uk

Swyddfa Ranbarthol Llandrindod

Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod LD1 5HA
Ffôn: 01597 823777 Ffacs: 01597 828304
E-bost: agriculture.llandrindod@wales.gsi.gov.uk

SWYDDFEYDD ARDAL

Is-adran Taliadau Gwledig

Llywodraeth Cymru
Tŷ Brunel
2 Fitzalan Road
Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: 02920 475237
Ffacs: 02920 475225

Swyddfa Ardal Aberystwyth

Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3UR
Ffôn: 0300 062 2022

Cysylltiadau defnyddiol eraill.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun-Gwe 8am-6pm)
Digwyddiadau argyfwng: 0800 807060 (Rhadffôn, 24 awr). Ffoniwch y llinell digwyddiadau argyfwng i ddweud am achosion o lygredd.
Ymholiadau cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Cadw

Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 – Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001
E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys

41 Broad Street, Y Trallwng, Powys, SY21
7RR
Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179
E-bost: trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol

Morgannwg-Gwent

Heathfield House
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469
www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed

Neuadd y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AF
Ffôn: 01558 823131
Ffacs: 01558 823133
E-bost: cambria@acadat.com
www.acadat.com

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925
E-bost: gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk